

Llinell Gymorth Byw Heb Ofn
Live Fear Free Helpline
0808 80 10 800 convo
ffôn • tecst • sgwrsio byw • ebost
call • text • live chat • email



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Gall Cam-Drin Ddigwydd ar Unrhyw Oedran

Canllawiau Diogelu Pobl Hŷn rhag Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV).

llyw.cymru

OGL © Hawlfraint y Goron 2026, Llywodraeth Cymru, WG55380, ISBN digidol 978-1-80853-734-9
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

Cynnwys

1. Cyflwyniad **1**

2. Cydnabod cam-drin domestig a brofir gan bobl hŷn **3**

- Rôl gweithwyr proffesiynol o ran cydnabod trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol mewn pobl hŷn 4

- Strategaethau a ddefnyddir gan y rheini sy'n cam-drin 6

- Deall ymddygiad gorfodaethol neu reolaethol 7

- Ystyried pobl hŷn fel dioddefwyr trais rhywiol 8

3. Rhwystrau sy'n wynebu pobl hŷn wrth ystyried datgelu camdriniaeth **10**

- Anghenion croestoriadol pobl hŷn 17

4. Cefnogi pobl hŷn sydd wedi cael eu cam-drin **21**

- Rheol Optimistiaeth 21

- Llwybr i gefnogi pobl hŷn y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt 24

- Cydnabod achosion o gam-drin - 'Gofyn a Gweithredu' 25

- Galluedd meddyliol a gwneud penderfyniadau 27

- Gofal a chymorth ychwanegol 29

5. Cyflawni camdriniaeth **30**

6. Camau Gweithredu ar gyfer y Rheini sy'n Cam-drin **32**

- Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC) 32

- Gweithio gyda'r sector arbenigol 34

- Cynghorwyr Annibynnol 35

- Mynediad at loches 37

- Ceisio cyfiawnder troseddol a sifil - cymorth 38

Atodiad 1: Adnoddau, Gwybodaeth a Chyfeirio **39**

Atodiad 2: Hybu Ymgysylltiad â Phobl Hŷn **42**

Atodiad 3: Strategaethau a Deddfwriaeth Berthnasol **43**

Atodiad 4: Rhestr Termau **49**

1. Cyflwyniad

Mae'r canllawiau hyn yn canolbwyntio'n bennaf ar brofiad pobl hŷn o gam-drin domestig, gan gyfeirio ar adegau at brofiadau ehangach o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV). Ceir rhestr lawn o ddiffiniadau yn yr eirfa yn Atodiad 4.

Pwrpas y canllawiau hyn yw galluogi gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phobl hŷn yng Nghymru i ymgysylltu'n fwy effeithiol â'r rheini sy'n profi neu sydd wedi profi cam-drin domestig neu drais rhywiol yn eu bywyd.

Mae'r canllawiau hyn wedi'u targedu'n bennaf at ymarferwyr sy'n gweithio gyda **phobl 60 oed a hŷn** yn unol â'r diffiniad rhyngwladol o Bobl Hŷn[1]. Fodd bynnag, nid oedran cronolegol yn unig sy'n pennu bregusrwydd. Dylai ymarferwyr ystyried oedran swyddogaethol, eiddilwch ac anghenion croestoriadol lluosog unrhyw unigolyn. O'r herwydd, gall y canllawiau hefyd fod yn berthnasol i ddioddefwyr sydd o dan 60 oed, lle gellid diwallu anghenion drwy atebion a nodir yn y canllawiau hyn.

Mae'r canllawiau wedi'u hanelu at y canlynol:

- Staff Gofal Cymdeithasol
- Gweithwyr Gofal Cartref
- Meddygon
- Nyrsys
- Swyddogion Tai
- Unrhyw weithwyr proffesiynol eraill ar draws asiantaethau datganoledig a rhai a gedwir yn ôl (fel yr Heddlu) a allai ddod i gysylltiad â phobl hŷn sy'n profi cam-drin domestig a mathau eraill o drais yn erbyn menywod, cam-

Rydym yn croesawu unrhyw asiantaethau eraill ar draws y sector preifat a'r trydydd sector i gyfeirio at y canllawiau hyn fel y gwelant yn briodol.

Er mwyn sicrhau ymateb cyflawn i anghenion pobl hŷn, rhaid i weithwyr proffesiynol weithio'n agos gydag asiantaethau partner sy'n ymgysylltu naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol â phobl hŷn, ni waeth beth fo'u hanghenion gofal a chymorth ychwanegol, neu a yw eu hamgylchiadau'n eu gwneud yn agored i niwed.

Bwriedir i'r canllawiau arferion da hyn arwain at well dealltwriaeth o brofiad pobl hŷn o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a byddant yn:

- cynnig cyngor ymarferol i staff a rheolwyr i sicrhau bod pobl hŷn yn gallu cael gafael ar y cymorth a'r cyngor gorau sydd ar gael.
- gwella cydnabyddiaeth a datblygu dealltwriaeth o'r cyd-destun lle mae cam-drin pobl hŷn yn digwydd a'r ymatebion dilynol y dylid eu hystyried.

[1] https://emergency.unhcr.org/protection/persons-risk/older-persons

- cyfrannu at wybodaeth a hyder gweithwyr proffesiynol er mwyn iddynt allu mynd i'r afael â chymhlethdodau gweithio gyda phobl hŷn sydd angen gofal a chymorth oherwydd trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, ond sydd hefyd yn gofyn i weithwyr proffesiynol ymateb i'w hanghenion gofal a chymorth eraill.

Diffiniadau allweddol

Y term **'dioddefwr'** a ddefnyddir drwy gydol y canllawiau hyn i adlewyrchu'r profiad a'r bregusrwydd sy'n gysylltiedig â'r trais, y cam-drin a'r esgeulustod a drafodir drwy gydol y ddogfen.	Gall profiadau fod yn gronnus ac yn drawmatig, yn enwedig os yw cam-drin wedi digwydd dros flynyddoedd lawer. Efallai y bydd yn well gan weithwyr proffesiynol iaith arall fel 'goroeswr', 'defnyddiwr gwasanaeth' neu 'cleient'. Ym mhob achos, mae'n briodol gofyn i gleient pa iaith sydd orau ganddo, a gall y dewis hwn newid drwy gydol ei daith gyda'r gwasanaethau proffesiynol.
Y term '**gofalwr**'	Yn gyffredinol, bydd y term **'gofalwr'** a ddefnyddir drwy'r canllawiau hyn yn cyfeirio at ofalwr di-dâl sy'n gysylltiedig â'r teulu sydd â chyfrifoldebau gofalu (gan gynnwys ei bartner).
Gall yr acronym **VAWDASV** gael ei ddefnyddio drwy gydol y canllawiau hyn a bydd yn cyfeirio at bob math o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol fel y'u diffinnir yn Neddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2015.	Mae'r term yn cydnabod bod y mathau hyn o drais a cham-drin yn effeithio'n anghymesur ar fenywod a merched, gan gydnabod bod dynion, bechgyn a phobl o bob rhywedd hefyd yn gallu bod yn ddioddefwyr ac yn oroeswyr. Mae'r amddiffyniadau, y dyletswyddau a'r cymorth sydd ar gael o dan y Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn berthnasol i bob dioddefwr a goroeswr, beth bynnag fo'u rhyw neu rywedd.

Gweler Atodiad 4 am yr eirfa lawn o ddiffiniadau.

2. Cydnabod cam-drin domestig a brofir gan bobl hŷn

Yn nes ymlaen mewn bywyd, gall y rheini sy'n cyflawni camdriniaeth ddomestig fod yn bartneriaid agos, yn gyn-bartneriaid agos, a/neu'n aelodau o'r teulu. Mae'r adnoddau, yr offer asesu risg a'r gwasanaethau a ddarperir wedi'u cynllunio i asesu risg trais gan bartneriaid agos, nid trais a cham-drin gan oedolion yn y teulu; er gwaethaf y ffaith fod diffiniad y Swyddfa Gartref o gam-drin domestig yn cynnwys aelodau o'r teulu. Mae pobl hŷn yn fwy tebygol o gael eu cam-drin gan oedolyn sy'n aelod o'r teulu na phartner personol agos presennol[2]. Yn aml, nid yw darparwyr gwasanaethau statudol yn cydnabod cam-drin domestig mewn achosion lle nad yw'r sawl sy'n cam-drin yn bartner agos; o ganlyniad, yn aml nid yw dioddefwyr-oroeswyr hŷn yn cael cynnig mynediad at adnoddau cam-drin domestig arbenigol[3]. Mae pob math o gam-drin domestig yn cael effaith ddofn ar y rheini sy'n ei brofi. Gall arwain at effeithiau tymor byr a thymor hir ar iechyd meddwl a llesiant meddyliol yr unigolyn, risg uwch o anaf corfforol, ac mewn rhai achosion, marwolaeth. Gall effeithiau cam-drin arwain at ddigartrefedd, ynysu ac allgáu cymdeithasol hirdymor[4].

Gall cam-drin pobl hŷn gynnwys y canlynol: *Bydd llawer o ddioddefwyr yn aml yn profi cyfuniad o'r ymddygiadau hyn:*	• Cam-drin emosiynol (seicolegol) • Cam-drin corfforol • Cam-drin ariannol • Esgeulustod • Trais rhywiol • Stelcio ac aflonyddu • Ymddygiad gorfodaethol a rheolaethol
Gall y rheini sy'n cam-drin gynnwys y canlynol: *Cam-drin domestig sydd â'r gyfradd uchaf o erlid dro ar ôl tro o'r holl droseddau treisgar.*	• Oedolion sy'n aelodau o'r teulu • Partneriaid agos • Gofalwyr • Pobl eraill sydd â chysylltiadau agos â'r dioddefwr.
Efallai na fydd pobl hŷn bob amser yn ystyried eu hunain yn ddioddefwyr camdriniaeth, oherwydd:	• Preifatrwydd a diwylliant - ddim yn cydnabod nac yn deall bod yr ymddygiad yn gamdriniol • Teyrngarwch i'r sawl sy'n cam-drin a'r teulu ehangach • Stereoteipio ar sail oedran • Ofn rhagor o drais • Annibyniaeth a hunan-barch • Diffyg hyder mewn gwasanaethau • Anableddau a salwch neu gyflyrau hirdymor • Bod yn ofalwr i'r sawl sy'n cam-drin

[2] Dewis_Choice_practitioner_guidance.pdf, Dewis Choice 2020
[3] Dewis_Choice_practitioner_guidance.pdf, Dewis Choice 2020
[4] Safe Later Lives | Older people & domestic abuse - SafeLives 2016

**Sylwch nad yw hon yn rhestr gynhwysfawr o ymddygiadau. Mae'n bwysig cynnal chwilfrydedd proffesiynol, a datblygiad proffesiynol parhaus wrth gydnabod arwyddion o ymddygiad camdriniol gan y rheini sy'n cam-drin tuag at ddioddefwyr.*

Rôl gweithwyr proffesiynol o ran cydnabod trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol mewn pobl hŷn

Dylai gweithwyr proffesiynol sy'n ymgysylltu â phobl hŷn fod yn ystyriol o fathau o gam-drin ac ymddygiad dioddefwr posibl a'r sawl sy'n cam-drin wrth asesu risg ac ymateb i bryderon diogelu. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Deddf 2014") yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar Awdurdod Lleol i gynnal neu drefnu ymholiadau os credir bod 'oedolyn' (gan gynnwys pobl hŷn) yn cael ei gam-drin neu ei esgeuluso, neu mewn perygl o hynny. (Gweler yr adran ***adnoddau, gwybodaeth a chyfeirio*** am wasanaethau sy'n ymgysylltu â phobl hŷn.

Yn aml, nid yw cam-drin domestig ymysg pobl hŷn yn cael ei gydnabod. Dylai ymarferwyr a phobl eraill sy'n pryderu ystyried lens ddiduedd wrth ymgysylltu â phobl hŷn, gan ymatal rhag yr hyn y gellir ei ystyried yn **agwedd 'Oedranyddol'** gyffredin, gan fod hyn yn peri risg bod dangosyddion cam-drin yn cael eu priodoli'n anghywir i heneiddio neu salwch.

> ***Yn ymarferol -***
> Gall peidio â chydnabod ac ymateb yn effeithiol i gam-drin domestig mewn person hŷn arwain at atgyfeiriadau amhriodol a chanlyniadau a allai fod yn anniogel.
> Ni ddylai ymarferwyr stereoteipio na llunio barn mewn perthynas â phobl hŷn a dylent archwilio holl brofiadau posibl pobl hŷn mewn ffyrdd tryloyw a chyda

Cyfeirir yn aml at gam-drin domestig a phrofiadau ehangach o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol fel niwed 'cudd' oherwydd bod dioddefwyr yn aml yn ofni rhoi gwybod am y cam-drin rhag ofn i'r rheini sy'n cam-drin ymateb. Os yw'r cam-drin wedi bod yn digwydd dros flynyddoedd lawer, efallai y bydd dioddefwyr yn datblygu diymadferthedd wedi'i ddysgu neu gysylltiad trawma â'r rheini sy'n cam-drin ac felly'n gweld bod aros yn eu sefyllfa bresennol yn well na'i adael. Bydd y rheini sy'n cam-drin yn ceisio ailddatgan eu rheolaeth dros y dioddefwr os byddant yn synhwyro newid mewn ymddygiad. Mae dioddefwyr yn aml yn aros mewn perthynas oherwydd eu bod yn ofni'r hyn y gallai'r rheini sy'n cam-drin ei wneud iddynt, neu aelodau eraill o'r teulu, pe baent yn ceisio gadael. Mae llawer o ddioddefwyr camdriniaeth hefyd yn teimlo rhyddhad yn ystod y cyfnodau pan fydd y cam-drin yn tawelu ac yn gobeithio y bydd eu hamgylchiadau'n gwella, ac y bydd y cam-drin yn dod i ben.

Mae ymchwil i gam-drin domestig yn dangos bod y cyfnod o gwmpas gwahanu yn gysylltiedig â risg uwch o niwed difrifol a lladdiadau[5]. I ddioddefwyr hŷn, gall gadael fod yn arbennig o gymhleth oherwydd bod llawer yn parhau i fyw gyda'r rheini sy'n cam-drin, yn dibynnu arnynt neu'n derbyn gofal ganddynt, ac yn ofni y bydd y cam-drin yn gwaethygu os caiff ei ddatgelu[6]. Felly, dylai gweithwyr proffesiynol gefnogi dioddefwyr gyda chynllunio a dewis diogelwch gwybodus.

Mae'r profiad o gam-drin domestig ymysg pobl hŷn yn amrywio; i rai byddant wedi cael eu cam-drin gan eu partner neu berthynas agos am flynyddoedd lawer neu wedi cael perthynas dda â'r sawl sy'n cam-drin, sydd wedi datblygu i fod yn gamdriniol wrth iddynt fynd yn hŷn. I eraill, gall y cam-drin fod yn nodwedd o berthynas newydd a ddechreuwyd yn ddiweddarach mewn bywyd.

[5] Post-Separation Abuse: Why Leaving Doesn't Always Mean Safety, Domestic Abuse Education, 2025
[6] 13d1c1_455024aa9cd042b48e5620b4d10812cb.pdf, Dewis Choice, 2025

Strategaethau a ddefnyddir gan y rheini sy'n cam-drin

Addaswyd Olwyn Duluth (isod) gan Dewis Choice ac mae'n tynnu sylw at y strategaethau niferus y gall y rheini sy'n cam-drin eu defnyddio i reoli dioddefwyr camdriniaeth:



"All rights reserved © 2020 Dewis Choice"

Deall Ymddygiad Gorfodaethol neu Reolaethol

Pan fydd perthynas agos neu deuluol rhwng dau neu fwy o unigolion, mae ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol yn drosedd (adran 76 o Ddeddf Troseddau Difrifol 2015). Gall fod ar sawl ffurf ond yn aml mae'n cynnwys patrwm o gam-drin parhaus ac ailadroddus. Gall y cam-drin hwn ymddangos yn arferol neu'n "lefel isel" i'r arsylwr allanol ond bydd ei arwyddocâd cudd i'r dioddefwr yn aml yn achosi pryder ac ofn. Gall hefyd greu amgylchedd lle mae ymddygiad cynyddol niweidiol yn cael ei dderbyn fel rhywbeth arferol gan y dioddefwr. Daeth y drosedd i rym i gydnabod effaith ddifrifol ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol - a all gynnwys cam-drin economaidd, emosiynol a seicolegol, cam-drin domestig wedi'i hwyluso gan dechnoleg, yn ogystal â bygythiadau - p'un a ydynt yn cynnwys cam-drin neu drais rhywiol a chorfforol ai peidio[7].

Yn Ymarferol:
Gall rheolaeth drwy orfodaeth fod yn arbennig o anodd ei adnabod mewn pobl hŷn lle mae dibyniaeth, cyfrifoldebau gofalu, salwch neu nam gwybyddol yn bresennol, gan fod modd cuddio ymddygiad camdriniol fel gofal a chymorth. Gall y rheini sy'n cam-drin fod yn ddychmygus yn y ffyrdd y maent yn rheoli eu partneriaid ac yn y canlyniadau sy'n deillio o anufuddhau. **Dylai staff sy'n delio ag achosion o gam-drin domestig posibl neu wedi'u cadarnhau fod yn effro i batrymau ymddygiad a allai fod yn rheoli neu'n gorfodi.**

Mae rheolaeth drwy orfodaeth fel arfer yn cael ei phersonoli, gan ei fod yn golygu rhywbeth i'r dioddefwr hyd yn oed pan nad yw'r ystyr yn amlwg i unrhyw un arall. Gall nodweddion unigol fel anabledd, aelodaeth o gymuned gaeedig neu ymylol, neu fod yn rhywun nad yw'n siarad Saesneg gynyddu'r risg o ynysu dioddefwr a'i gwneud yn haws i gyflawnwr sefydlu ymddygiad sy'n rheolaethol neu'n orfodaethol.

Fodd bynnag, er y gall rhai o'r rheini sy'n cam-drin fod yn gymhellol ac yn rhagfwriadol yn eu gweithredoedd, gall eraill fod yn ymateb i amgylchiadau lle nad ydynt yn gallu ymdopi â lefel y gofal sydd ei angen ar y dioddefwr. Yn ogystal, gall fod achos clinigol dros y cam-drin: er enghraifft, oherwydd dementia. Mae gwahaniaeth pwysig i'w wneud rhwng ymddygiad gorfodaethol a rheolaethol ac effeithiau anfwriadol straen neu fethiant gofalwyr. Er bod cydnabod y pwysau a brofir gan ofalwyr yn bwysig, ni ddylai gweithwyr proffesiynol leihau ymddygiad camdriniol yn anfwriadol na gwanhau cyfrifoldebau diogelu. Os na roddir ystyriaeth i orfodaeth, gallai arwain at golli cyfle i gydnabod camdriniaeth a thrais.

[7] Controlling or coercive behaviour statutory guidance, 2023

Mae enghreifftiau o ymddygiad gorfodaethol neu reolaethol yn cynnwys y canlynol, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- beirniadaeth gyson
- cywilydd
- ymddygiad cenfigennus neu feddiannol, *e.e. galwadau ffôn rheolaidd i weld lle mae'r dioddefwr / beth mae'n ei wneud; gwirio gweithgarwch ar ffôn / e-bost y dioddefwr*
- bygythiadau gan y cyflawnwr i hunan-niweidio neu ddod â'i fywyd i ben, neu weithredoedd hunan-niweidio gwirioneddol
- bygythiadau o niwed i anifeiliaid anwes
- rheoli cyllid y teulu, atal neu gyfyngu ar allu'r dioddefwr i gael gafael ar arian
- ynysu'r dioddefwr - cyfyngu ar ymweliadau â/gan ffrindiau a theulu
- cyfyngu ar symudiadau'r dioddefwr, e.e. ei gyfyngu i ystafell, cael ei orfodi i roi gwybod sut mae'n treulio ei amser
- rheoli beth mae dioddefwr yn ei wisgo neu sut mae'n gwneud ei wallt
- rheoli trefn neu amserlen dioddefwr, e.e. amseru tripiau siopa
- rhyng-gipio cyfathrebiadau, e.e. llythyrau, negeseuon neu alwadau ffôn
- rheoli mynediad at becynnau gofal neu wasanaethau cymorth
- peidio â gadael i unigolion fynd i apwyntiadau ar eu pen eu hunain
- atal mynediad at gymhorthion symud
- cadw gafael ar gymhorthion clyw neu sbectol
- camddefnyddio Atwrneiaeth Arhosol
- trais rhywiol a bygythiadau o niwed rhywiol
- atal neu reoli meddyginiaeth

Ystyried pobl hŷn fel dioddefwyr trais rhywiol

Mae Trais Rhywiol yn aml yn cael ei ddiystyru fel niwed sy'n effeithio ar bobl hŷn. Oherwydd agweddau oedraniaethol, mae llawer o bobl yn credu nad yw pobl hŷn yn cael rhyw neu'n ystyried trais rhywiol a mathau eraill o aflonyddu a cham-drin rhywiol fel rhywbeth nad yw'n effeithio ar bobl hŷn[8]. Yn anffodus, gwyddom fod hyn yn anghywir.

Mae tystiolaeth yn awgrymu bod trais rhywiol yn erbyn pobl hŷn yn aml yn digwydd yn eu cartrefi eu hunain ac yn cael ei gyflawni gan amlaf gan blant sy'n oedolion neu bartneriaid agos. Felly, anaml iawn y mae niwed rhywiol yn nes ymlaen mewn bywyd yn ymwneud â dieithriaid, yn llawer amlach mae'n ymwneud â thor-ymddiriedaeth y tu ôl i ddrysau caeedig[9].

[8] Improving responses to older people's experiences of sexual violence and abuse - Summary report (HTML) - Older People's Commissioner for Wales, 2025

[9] Sexual Abuse in Later Life | Hourglass, 2025

Gall enghreifftiau o drais rhywiol tuag at bobl hŷn gynnwys y canlynol[10]:

- trais neu ymosodiad rhywiol,
- cyffwrdd rhywiol digroeso
- gorfodaeth i gyflawni gweithredoedd rhywiol
- camfanteisio rhywiol,
- camdriniaeth gan ofalwyr, aelodau o'r teulu neu weithwyr proffesiynol mewn cartrefi preifat, ysbytai neu leoliadau gofal.

Gwyddom hefyd fod pobl hŷn yn llai tebygol na phobl iau o ddatgelu trais rhywiol sydd wedi digwydd iddynt - boed hynny yn eu perthynas agos eu hunain, gan aelodau ehangach o'r teulu, y rheini sydd mewn rôl gofalu, neu gan weithwyr proffesiynol eraill y maent yn rhyngweithio â nhw.

Bydd rhai pobl hŷn wedi profi trais rhywiol ddegawdau lawer yn ôl (yn ystod eu plentyndod, er enghraifft) ac yn dal i fyw gyda thrallod a thrawma eu profiadau. Gall dioddef camdriniaeth yn ystod plentyndod gynyddu'r risg o gamdriniaeth yn nes ymlaen mewn bywyd, yn enwedig mewn perthnasoedd agos neu leoliadau gofal. Mae cam-drin rhywiol yn ystod plentyndod yn amharu'n sylweddol ar deimladau o ymddiriedaeth a hunan-werth; gall normaleiddio trais, gan ei gwneud yn anoddach i unigolion ddatgysylltu eu hunain oddi wrth berthnasoedd treisgar a chamdriniol pan fyddant yn oedolion. Mae'n bwysig cydnabod y gall rhai pobl hŷn fod yn byw gyda thrawma blynyddoedd o brofiadau niferus o gam-drin, wedi'u cyflawni gan unigolion gwahanol[11].

Gall pobl hŷn eraill - cam-drin 'cymheiriaid yn erbyn ei gilydd' - gyflawni camdriniaeth hefyd, yn enwedig mewn cartrefi preswyl neu nyrsio. Gall fod yn anodd datgelu neu ymateb i'r math hwn o drais rhywiol, yn enwedig os oes gan y dioddefwr, neu'r sawl sy'n cam-drin, neu'r ddau, ddementia. Mae pobl sy'n byw gyda dementia yn wynebu risg uchel gan y gall y rheini sy'n cam-drin dargedu'r rheini sydd â phroblemau gyda'r cof, neu sydd â diffyg galluedd, gan ei bod yn aml wedyn yn anodd iawn 'profi' bod cam-drin wedi digwydd.

Mae'n hanfodol nad yw gweithwyr proffesiynol yn gwneud y camgymeriad o ddiystyru pryderon os ydynt yn amau bod trais rhywiol wedi effeithio ar unigolyn, boed hynny ar hyn o bryd neu yn y gorffennol. Mae cynnal chwilfrydedd proffesiynol am bob agwedd ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol gyda phobl hŷn yn gwella'r tebygolrwydd o ddatgelu a chymorth.

[10] Sexual Abuse in Later Life | Hourglass, 2025

[11] Improving responses to older people's experiences of sexual violence and abuse - Summary report (HTML) - Older People's Commissioner for Wales, 2025

3. Rhwystrau sy'n wynebu pobl hŷn wrth ystyried datgelu camdriniaeth

Er ei fod yn wir am bawb sy'n dioddef cam-drin domestig, gall fod yn anodd i berson hŷn adnabod neu gydnabod cam-drin sy'n cael ei gyflawni gan anwyliaid, os yw'n teimlo ei fod yn cael ei gymell gan ofal. Gall hyn olygu nad ydynt yn teimlo bod angen iddynt geisio cyngor neu gymorth i ymateb i'r ymddygiad y maent yn ei ddioddef. Gall pobl hŷn fod yn fwy dibynnol yn gymdeithasol, yn emosiynol, yn ariannol a/neu'n gorfforol ar y sawl/rheini sy'n cam-drin.

O ganlyniad, gall pobl hŷn fod yn fwy amharod i roi gwybod am gam-drin oherwydd bod ofn y gallent golli'r gefnogaeth y maent yn dibynnu arni, cael eu sefydliadu a/neu eu rhoi mewn cartref gofal. Efallai y byddant yn datgelu llai o wybodaeth ac yn fwy tebygol o leihau eu profiad.

Dylid ystyried y rhwystrau canlynol wrth ymgysylltu â phobl hŷn sy'n profi cam-drin domestig neu'r rheini a allai fod yn cael eu cam-drin.

Preifatrwydd a diwylliant	Mae tystiolaeth yn awgrymu y gallai pobl hŷn fod yn llai tebygol o gynnwys asiantaethau mewn materion teuluol preifat oherwydd agweddau cenedliadol tuag at breifatrwydd teuluol a phriodas , teimladau o gywilydd neu stigma sy'n gysylltiedig â chamdriniaeth, yn enwedig pan fyddant yn cael eu cam-drin gan aelod o'r teulu, a chred y dylent reoli anawsterau'n annibynnol yn hytrach na cheisio cymorth ffurfiol[12]. Efallai na fydd pobl hŷn yn ystyried bod y cam-drin yn gam-drin domestig ac yn drais rhywiol ac felly efallai na fyddant yn ymateb i gwestiynau yn defnyddio'r iaith hon. Fel gyda phob dioddefwr posibl, efallai y bydd pobl hŷn yn teimlo'n fwy hyderus i ddatgelu camdriniaeth wrth i'w perthynas ag ymarferydd ddatblygu ac wrth i'w hymddiriedaeth ynddynt dyfu.
Teyrngarwch i'r sawl sy'n cam-drin neu'r teulu ehangach	Gall pobl hŷn fod yn llai tebygol o ddatgelu camdriniaeth gan nad ydynt eisiau tarfu ar ddeinameg y teulu oherwydd teyrngarwch i'r sawl sy'n cam-drin a'r teulu ehangach. Gallai hyn fod yn wir p'un a yw'r unigolyn yn profi trais gan bartner agos neu drais a cham-drin gan aelod arall o'r teulu sy'n oedolyn. Gall dioddefwyr fod yn poeni am ymddieithrio oddi wrth aelodau eraill o'r teulu os gwneir

[12] Report: Understanding the Experience of Older Victim-Survivor, Dewis Choice, 2025

	datgeliad. Gall dioddefwyr hŷn hefyd ddibynnu'n aml ar rwydwaith o berthnasau ac felly maent yn poeni y bydd datgeliad yn effeithio ar hyn.
Stereoteipio ar sail oedran	Gyda stereoteipio ar sail oedran, mae pobl hŷn yn aml yn cael eu gweld fel pobl sydd wedi'u hanafu, sy'n anhapus, sy'n isel eu hysbryd neu sy'n cael anawsterau eraill, oherwydd anghenion iechyd neu ofal cymdeithasol. Gan ddefnyddio dull cyfannol, dylai gweithwyr proffesiynol fabwysiadu dulliau chwilfrydedd proffesiynol ac ansicrwydd parchus wrth asesu pobl hŷn, er mwyn osgoi penderfyniadau brysiog ar sail eu disgwyliadau eu hunain o anghenion pobl hŷn a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt. Gall pobl hŷn fod yn fwy agored i niwed yn gorfforol, yn fwy ynysig yn gymdeithasol ac yn teimlo'n llai abl i ddianc na'r rhai sy'n iau. Gall y sawl sy'n cam-drin hefyd fod yn bresennol drwy'r amser. Pan fydd gwendidau ychwanegol person hŷn wedi dod â nhw i gysylltiad agos â gweithwyr proffesiynol, os nad ydynt wedi datgelu'r cam-drin (oherwydd na ofynnwyd iddynt, nad oeddent yn barod neu fod y cam-drin wedi gwaethygu) efallai y byddant yn teimlo cywilydd wrth drafod y mater nawr. Pan fo cam-drin wedi bod yn digwydd ers oes, efallai y bydd y person yn profi cywilydd neu stigma am ei gadw'n gyfrinach am gyhyd.
Ofn rhagor o drais	Efallai na fydd person hŷn yn cael ei gam-drin yn uniongyrchol ond efallai y bydd yn dod i gysylltiad â hynny yn ei amgylchedd teuluol, er enghraifft pobl hŷn sy'n byw yng nghartref y teulu lle mai aelod arall o'r teulu yw'r prif ddioddefwr, neu pan fydd yn cael ei dargedu gan unigolyn sy'n cam-drin aelod o'i deulu. Mae'n bwysig cydnabod bod dod i gysylltiad â chamdriniaeth o'r fath yn gallu arwain at niwed difrifol yn y tymor byr a'r tymor hir ac, yn yr achosion mwyaf difrifol, gall gyfrannu at neu arwain at anafiadau difrifol, lladdiadau neu farwolaethau. Wrth ystyried asesiad ac ymyriad posibl, dylai gweithwyr proffesiynol gydbwyso dull cyfannol sy'n canolbwyntio ar y teulu cyfan i fynd i'r afael ag anghenion pob aelod, gan gynnwys y rheini sydd ag anghenion gofal, â diogelwch a dymuniadau'r person hŷn sydd mewn perygl.

Annibyniaeth a Hunan-barch	Er bod colli annibyniaeth a hunan-barch isel yn effeithio ar lawer o bobl hŷn sy'n dioddef cam-drin domestig, gall pobl ag anghenion gofal a chymorth sy'n cael eu gorfodi a'u rheoli gan ofalwyr neu aelodau o'r teulu brofi mwy o anawsterau wrth gydnabod eu profiad fel cam-drin. Maent yn fwy tebygol o feio eu hunain neu eu hanghenion am y cam-drin. Efallai eu bod hefyd yn ofni colli annibyniaeth y maent wedi gweithio'n galed i'w hennill; neu'n ofni colli balchder a methu â rheoli eu cyflwr. Gall trefniadau gofal cyfarwydd, cysylltiadau cymunedol neu rwydweithiau cymorth lleol hefyd fod mewn perygl os byddant yn gadael eu sefyllfa fyw bresennol a/neu'n symud ardal.
Diffyg hyder mewn gwasanaethau neu ddim eisiau *'achosi trwbl'*	Bydd gan rai pobl hŷn berthynas dda a llawn ymddiriedaeth â gweithwyr proffesiynol sy'n gallu eu cefnogi i roi gwybod am gam-drin domestig a delio ag ef. Fodd bynnag, efallai na fydd unigolion eraill yn ymddiried mewn asiantaethau i ymateb yn effeithiol neu byddant yn ofni colli rhagor o annibyniaeth neu newid. Efallai y bydd angen mwy o amser ar bobl hŷn sydd â'r pryderon hyn i feithrin ymddiriedaeth a hyder, ac arwydd cadarnhaol y byddant yn cael eu cefnogi cyn iddynt ddatgelu i weithwyr proffesiynol a symud ymlaen i ystyried eu hopsiynau. Weithiau, efallai y bydd pobl hŷn yn teimlo nad yw datgelu i weithiwr proffesiynol arall, fel nyrs, fferyllydd, neu driniwr gwallt/barbwr yn briodol, ac nad eu problem nhw ydyw.
Anableddau a salwch neu gyflyrau hirdymor	Efallai y bydd gan rai pobl hŷn gyflyrau iechyd neu anableddau hirdymor. Mae menywod sy'n wynebu rhwystrau iechyd neu rwystrau sy'n gysylltiedig ag anabledd ddwywaith yn fwy tebygol o brofi trais a cham-drin rhywiol na menywod heb y rhwystrau hyn[13]. Gall fod gwahaniaethau hefyd yn natur, maint ac effaith cam-drin. Manteisir yn aml ar gyflyrau iechyd ac anableddau fel rhan o gam-drin. Bydd rhai mathau o gam-drin yn canolbwyntio'n benodol ar y cyflwr iechyd neu anabledd ac yn ei waethygu'n fwriadol. Gall cam-drin hefyd gynnwys camddefnyddio meddyginiaeth ar bresgripsiwn.

[13] Disabled people and domestic abuse spotlight - SafeLives, 2017

	Mae llawer o ddrwgweithredwyr yn pwysleisio ac yn atgyfnerthu dibyniaeth yn fwriadol fel ffordd o fynnu a chadw rheolaeth. Mae effaith cam-drin domestig a thrais rhywiol yn aml yn arbennig o ddifrifol lle mae'r partner sy'n cam-drin hefyd yn brif ofalwr; mae gan y gofalwr bŵer a rheolaeth sylweddol, ac mae'r dioddefwr yn dibynnu'n llwyr arno. Mae enghreifftiau'n cynnwys rheoli trefniadau gofal am dâl, cyfyngu ar gymhorthion symud, a chadw gafael ar ddyfeisiau cyfathrebu. Gall pobl hŷn sy'n profi cyflyrau iechyd neu anableddau tymor hir fod yn amharod i adael eu cartref eu hunain os yw wedi cael ei addasu i gefnogi eu hanghenion. Efallai eu bod hefyd yn ofni y gallai gofal sefydliadol gael ei orfodi arnynt os byddant yn gadael cartref sydd wedi'i addasu a'u gofalwr sy'n eu cam-drin. Rhaid trafod unrhyw benderfyniad ynghylch llety person hŷn gyda'i gydsyniad a glynu wrth y fframwaith deddfwriaethol perthnasol, fel Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014. Gall pobl hŷn ag anghenion gofal dementia fod yn fwy agored i gael eu hecsbloetio gan bobl eraill, gan y gallai eu dementia amharu ar eu gallu i ofyn am help, eiriol drostynt eu hunain neu dynnu eu hunain o sefyllfaoedd a allai fod yn gamdriniol. Atgyfnerthir y gwendid hwn ymhellach gan y nam gwybyddol, iselder, anawsterau ymddygiad, ynysu cymdeithasol a dibyniaeth sy'n gysylltiedig â dementia[14]. Rhaid cyfeirio achosion risg uchel at y weithdrefn ddiogelu 'oedolyn sy'n wynebu risg' neu'r Cynadleddau Amlasiantaeth Asesu Risg (MARACs) os yw hynny'n briodol. Mae dysgu o adolygiadau Ymarfer Oedolion o achosion sy'n ymwneud â dementia a straen ar ofalwyr yn dangos bod cydnabyddiaeth, ymyrraeth a chymorth priodol yn gynnar yn gallu bod yn effeithiol o ran lleihau'r risg o niwed ac atal trychineb. Mae Cynadleddau Amlasiantaeth Asesu Risg (gweler adran 6) yn gyfarfodydd lleol rheolaidd sy'n trafod sut i helpu dioddefwyr sydd â risg uchel o lofruddiaeth neu niwed difrifol oherwydd cam-drin domestig.

[14] 13d1c1_169dcd3514164e72a8c18c3fb87ad978.pdf, Dewis Choice, 2025

	Pan ddarperir gofal gan ofalwr teuluol, mae'r risg yn cynyddu pan fydd y gofalwr: • ag anghenion heb eu diwallu neu heb eu cydnabod • yn agored i niwed eu hunain • heb fawr o ddealltwriaeth o gyflwr neu anghenion y person agored i niwed • wedi gorfod newid ei ffordd o fyw heb fod eisiau gwneud hynny • ddim yn derbyn cefnogaeth ymarferol a/neu emosiynol gan aelodau eraill o'r teulu • ddim yn ymgysylltu â gwasanaethau iechyd a/neu ofal cymdeithasol • yn teimlo'n ynysig yn emosiynol ac yn gymdeithasol, nad yw'n cael ei werthfawrogi neu ei fod yn cael ei stigmateiddio • â chyfrifoldebau eraill fel teulu neu waith • heb le personol na phreifat na bywyd y tu allan i'r amgylchedd gofalu • wedi gofyn yn aml am help ond bod problemau heb eu datrys • yn cael ei gam-drin gan y person agored i niwed • yn teimlo nad yw'r person agored i niwed yn ei werthfawrogi neu ei fod yn cael ei ecsbloetio gan berthnasau neu wasanaethau Gall rhai o'r ffactorau sy'n rhoi gofalwyr teuluol mewn mwy o berygl o niwed hefyd gynyddu'r risg y bydd y gofalwr yn achosi niwed i'r person maent yn ei gefnogi. Gall hyn gynnwys, er enghraifft, gweithredoedd o drais dialgar (fel taro'n ôl), defnydd amhriodol o feddyginiaeth (gan gynnwys meddyginiaeth wrthseicotig), neu ddefnyddio ymddygiad rheolaethol neu gyfyngol a allai achosi niwed emosiynol neu seicolegol. At hynny, os nad yw gofalwr yn gwybod sut i ddiwallu anghenion unigolyn â dementia neu salwch arall, neu os yw risg yn deillio o ddiffyg sgiliau ymdopi neu anghenion heb eu diwallu, gall achosi niwed anfwriadol. Lle mae'r risg o niwed yn cael ei achosi'n anfwriadol e.e. oherwydd nad yw gofalwr yn gwybod sut i ddiwallu anghenion unigolyn â dementia neu salwch arall, neu os yw risg yn deillio o ddiffyg sgiliau

	ymdopi neu anghenion heb eu diwallu, gall cynllunio diogelwch ganolbwyntio ar gamau gweithredu sy'n galluogi'r gofalwr i ofalu'n effeithiol, neu i bobl eraill ddarparu gofal seibiant neu ofal mwy parhaol. Mae asesiad gofalwr, y gellir gofyn amdano gan Wasanaethau Cymdeithasol Awdurdod Lleol yr unigolyn, yn adnodd defnyddiol i gyflawni hyn. Dim ond os bydd trothwyon statudol yn cael eu bodloni y bydd gweithdrefnau diogelu oedolion yn dechrau. Byddant yn galluogi dull amlasiantaeth i sicrhau bod yr unigolyn sydd mewn perygl yn ddiogel a bod ei anghenion ac anghenion y gofalwr yn cael sylw. Gall cam-drin anfwriadol achosi niwed drwy weithred neu ddiffyg gweithredu. Gall gael effaith ddifrifol ar yr oedolyn sydd mewn perygl ac ni ddylid ei anwybyddu.
Gofalu a chael eich cam-drin	Efallai y bydd person hŷn yn ofalwr i'r sawl sy'n cam-drin ac yn teimlo na all roi'r gorau i'r gofal hwnnw er gwaethaf y cam-drin. Gall ffactorau sy'n cyfrannu at hyn gynnwys deinameg teulu cymhleth, ymdeimlad o rwymedigaeth neu euogrwydd, ymlyniad emosiynol, pryderon am effeithiau atal gofal, canfyddiad o ddiffyg cefnogaeth amgen, dibyniaeth ariannol, gorfodaeth neu reolaeth a disgwyliadau diwylliannol neu gymdeithasol sy'n gysylltiedig â gofalu. Mae'r tebygolrwydd o gam-drin yn cynyddu pan fydd y sawl sy'n derbyn gofal: • ag anghenion iechyd a gofal sy'n rhy gymhleth i'r gofalwr ac sydd angen cymorth hirdymor • â hanes o gam-drin domestig • ddim yn ystyried anghenion y gofalwr neu aelodau o'r teulu • yn trin y gofalwr gyda diffyg parch neu gwrteisi • yn gwrthod help a chefnogaeth o'r tu allan, gan gynnwys egwyliau • yn gwrthod cael ei adael ar ei ben ei hun yn ystod y dydd neu'r nos • â rheolaeth dros adnoddau ariannol, eiddo a threfniadau byw

	• yn ymddwyn yn gamdriniol, yn ymosodol neu'n frawychus • â hanes o gamddefnyddio sylweddau • ag ymddygiad anarferol neu dramgwyddus, neu y credir bod ganddo ymddygiad o'r fath • ddim yn deall eu gweithredoedd a'u heffaith ar y gofalwr • yn flin am eu sefyllfa ac yn ceisio cosbi pobl eraill amdani • wedi gofyn am gymorth neu gefnogaeth ond heb gyrraedd y trothwyon ar gyfer hyn • mae'r sefyllfa ofalu yn cael ei gwaethygu gan effaith natur a graddau arwahanrwydd emosiynol a/neu gymdeithasol y gofalwr neu'r person sy'n cael cymorth ***Yn Ymarferol:*** Dylai gweithwyr proffesiynol osgoi tybio mai salwch, anabledd neu anghenion gofal yn unig sy'n gyfrifol am ymddygiad camdriniol. Dylent ennyn chwilfrydedd proffesiynol a chynnal asesiad cyfannol o risg, deinameg pŵer a phrofiad bywyd yr unigolyn, yn enwedig lle mae rhwystrau ychwanegol yn bodoli sy'n eu hatal rhag datgelu niwed neu niwed posibl.

Anghenion croestoriadol pobl hŷn

Mae gan bob person hŷn ei anghenion unigol ei hun, a dylid bob amser ystyried **dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn** wrth weithio gydag unigolion sydd mewn perygl o gam-drin domestig, neu sydd wedi profi cam-drin domestig, neu fathau eraill o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. O ganlyniad i fathau croestoriadol o wahaniaethu a gormes, mae unigolion sydd ag un neu fwy o nodweddion gwarchodedig yn fwyfwy tebygol o brofi trais yn amlach neu'n fwy difrifol neu wynebu rhwystrau ychwanegol rhag gofyn am help.

Yn Ymarferol:
Dylai ymarferwyr ystyried dull croestoriadol wrth ddatblygu eu dealltwriaeth o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol mewn perthynas â phobl hŷn a gweithio i fynd i'r afael ag anghenion amrywiol pawb yr effeithir arnynt: gan gynnwys pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, pobl anabl, gan gynnwys y rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, niwrowahaniaeth a nam ar y synhwyrau, Sipsiwn, Roma a Theithwyr, ac unigolion o gymunedau LHDTC+.

Gall pobl hŷn o gefndiroedd Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol wynebu cywilydd diwylliannol wrth geisio cymorth ar gyfer eu profiadau o gam-drin gan bartneriaid ac maent yn fwy tebygol o wynebu cam-drin ar sail anrhydedd. Mae rhwystrau eraill yn cynnwys y canlynol:

- rhwystrau iaith
- ofn torri cyfrinachedd
- hiliaeth, ymddangosiadol neu wirioneddol
- credoau ac arferion diwylliannol
- ofn cael eu gwrthod gan eu cymuned
- anrhydedd teulu , cywilydd a stigma
- ofn trais ar sail 'anrhydedd'

Mae pobl hŷn sy'n wynebu rhwystrau iaith yn llai tebygol o ddatgelu camdriniaeth ar y pwynt cyswllt â gwasanaethau rheng flaen a gwasanaethau arbenigol, lle ceir mwy o anhawster o ran diwallu anghenion iaith unigol. Er mwyn gweithio o fewn dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, dylai ymarferwyr a gwasanaethau ystyried sut i herio'r rhwystr hwn i gefnogi datgelu a diwallu anghenion unigolyn.

Astudiaeth achos: 'A', 61 oed

Roedd A, menyw 61 oed, yn byw gyda'i gŵr a oedd yn dod o'r gymuned Gwrdaidd. Ar ôl ei bygwth ag arf tanio, cafodd ei gŵr ei remandio i'r ddalfa ac yna ei ryddhau ar fechnïaeth. Gwnaeth gŵr A fygythiadau pellach yn ei herbyn ac anfonodd aelodau o'r gymuned Gwrdaidd i'w gweld a'i dychryn i dynnu ei chwyn i'r heddlu yn ôl. Ceisiodd ei gŵr ei dychryn hefyd gyda bygythiadau a'i gorfodi i ddychwelyd i Gwrdistan gydag ef. Roedd A yn unig iawn ac yn ei chael yn anodd gwybod pwy i ymddiried ynddo yn y gymuned leol. Daeth yn hynod isel ei hysbryd ac yn dawedog.

Dechreuodd Cynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig gymryd rhan, a chefnogodd A i sicrhau Llety Dros Dro. Rhoddwyd offer cryfhau targed, larwm personol a chamera teledu cylch cyfyng iddi hefyd. Gofynnodd y Cynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig am ymweliadau sicrwydd a mwy o batrolau heddlu yn ardal A a gwnaeth atgyfeiriad at Gynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg oherwydd pryderon o risg uchel o drais ar sail 'anrhydedd'. Fe wnaeth gwasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol arbenigol ddarparu cymorth gan gymheiriaid, lle diogel i gael cymorth gydag achosion troseddol, cwnsela a chyfeirio.

Oherwydd y gefnogaeth a gafodd, mae A wedi gallu aros yn y DU. Mae ei gorbryder a'i hiselder wedi lleihau, mae ganddi ffrindiau erbyn hyn, mae wedi gallu cadw mewn cysylltiad â rhai aelodau o'i theulu ac mae'n annibynnol yn ariannol. Parhaodd yn llwyddiannus â'r achos troseddol yn erbyn ei gŵr, a blediodd yn euog i'r cyhuddiadau ac sydd bellach yn bwrw dedfryd o garchar[15].

Mae pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol, trawsrywiol a cwiar (LHDTC+) yn tueddu i beidio â rhoi gwybod am fathau o drais a cham-drin[16]. Dyma rai o'r rhwystrau ychwanegol sy'n wynebu pobl hŷn yn y gymuned LHDTC+:

- diffyg gwybodaeth a chydnabyddiaeth ymddangosiadol neu wirioneddol gan weithwyr proffesiynol am gam-drin sy'n digwydd mewn perthnasoedd pobl LHDTC+
- profiad hanesyddol pobl hŷn o homoffobia fel y norm ac o'u bywydau rhywiol wedi bod yn anghyfreithlon (dynion hoyw a deurywiol)
- diffyg sicrwydd am eu cyfeiriadedd rhywiol neu eu hunaniaeth o ran rhywedd a/neu'r gallu i fod yn agored am hyn gyda phobl eraill
- profi tactegau rheoli gan y sawl sy'n cam-drin sy'n canolbwyntio ar gyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth o ran rhywedd yr unigolyn, fel bygythiadau i "ddatgelu"
- pryder y gall cael gafael ar wasanaethau eu "datgelu" i bobl eraill yn anfwriadol ac arwain at fathau o gam-drin, fel troseddau casineb neu gam-drin homoffobig/deuffobig/trawsffobig gan bobl eraill lle maent yn byw

[15] Astudiaeth achos wedi'i darparu gan Uned Ddiogelwch Cam-drin Domestig Gogledd Cymru
[16] V4.6 Working with Older LGBTQ FINAL without flag, Dewis Choice, 2022

- ymdeimlad o lefel annigonol o wybodaeth a sgiliau proffesiynol yn ymwneud ag amrywiaeth
- os bydd unigolyn yn trawsnewid, gall brofi teimladau negyddol ynghylch rhannau penodol o'r corff a allai arwain at amharodrwydd i ymgysylltu â gwasanaethau lle gallai deimlo'n agored yn gorfforol, fel y gwasanaethau atgyfeirio ymosodiadau rhywiol (SARC)

Astudiaeth achos: Jeanette, 71 oed

Datblygodd Jeanette, menyw draws 71 oed, berthynas agos ag Annabel, menyw draws iau y daeth i'w hystyried yn ferch iddi. Symudodd Annabel i mewn gyda Jeannee a sefydlu ei hun fwyfwy fel gofalwr Jeanette, gan greu perthynas o ddibyniaeth. Dros amser, fodd bynnag, ceisiodd gyfyngu ar gysylltiad Jeanette â theulu a gweithwyr proffesiynol. Cafodd Annabel afael ar arian Jeanette a gwariodd symiau sylweddol o arian yn dwyllodrus. Daeth ymddygiad Annabel tuag at Jeannette yn fwyfwy esgeulus a sarhaus ar lafar.

Daeth gwasanaethau yn ymwybodol o'r sefyllfa pan gododd nyrs gymunedol bryderon am les Jeanette. Cefnogwyd Jeanette drwy ymateb amlasiantaeth cydlynol a oedd yn cynnwys diogelu, cymorth cam-drin domestig arbenigol i bobl hŷn, gweithwyr iechyd proffesiynol, gan gynnwys ei nyrs gymunedol, a'r heddlu. Roedd yr asiantaethau'n rhannu gwybodaeth yn dda a chynhaliwyd cyfarfodydd amlasiantaeth i gydlynu'r ymateb a chreu darlun llawnach o'r risgiau yr oedd hi'n eu hwynebu.

Casglodd yr heddlu dystiolaeth mewn perthynas ag amheuaeth o dwyll a dwyn. Fel rhan o hyn, cefnogwyd Jeanette i nodi gweithgarwch a allai fod yn dwyllodrus a diogelu ei chyfrif banc i leihau'r risg o gam-drin ariannol pellach. Canfu'r heddlu hefyd fod technoleg blocio galwadau wedi cael ei gosod yn ddiwybod ar ffôn symudol Jeanette, a oedd yn atal gwasanaethau rhag cysylltu â hi. Mae hyn yn dangos pwysigrwydd chwilfrydedd proffesiynol o ran y posibilrwydd bod cam-drin sy'n cael ei hwyluso gan dechnoleg yn effeithio ar ddioddefwyr hŷn a hefyd i gwestiynu pam mae rhywun yn dod yn annisgwyl o anodd cysylltu â nhw yn hytrach na thybio eu bod yn ymddieithrio oddi wrth gymorth.

Edrychwyd hefyd ar opsiynau diogelwch a llety brys. Gan fod perthynas Jeanette ag Annabel y tu allan i'r diffiniad statudol o gam-drin domestig, a bod Jeanette yn fenyw draws, gofynnwyd am gyngor gan Byw Heb Ofn ynghylch pa opsiynau llety arbenigol fyddai ar gael iddi pe bai angen iddi adael.

Darparodd gweithiwr cam-drin domestig arbenigol eiriolaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i Jeanette a helpodd weithwyr proffesiynol i ddeall sut yr oedd y cam-drin wedi effeithio arni fel menyw draws hŷn. Roedd hyn yn cynnwys cydnabod pwysigrwydd hunaniaeth, ymddiriedaeth a'r teulu a ddewiswyd, ochr yn ochr â'r rhwystrau posibl yr oedd Jeanette yn eu hwynebu wrth ddatgelu camdriniaeth ac ymgysylltu â gwasanaethau.

Er nad oedd y berthynas yn dod o dan y diffiniad statudol o gam-drin domestig oherwydd eu math o 'gysylltiad perso nol', roedd gweithwyr proffesiynol yn cydnabod bod ei deinameg yn adlewyrchu cam-drin domestig, gan gynnwys rheolaeth drwy orfodaeth, ynysu, camfanteisio ariannol, esgeulustod a cham-drin perthynas o ymddiriedaeth. Roedd hyn yn atal profiadau Jeanette rhag cael eu lleihau oherwydd nad oedd y berthynas yn cyd-fynd â'r ddealltwriaeth gonfensiynol o gam-drin gan deulu neu bartner agos. [17]

[17] Astudiaeth achos wedi'i darparu gan Dewis Choice

4. Cefnogi pobl hŷn sydd wedi cael eu cam-drin

Fel y mae'r adran flaenorol yn ei amlinellu, efallai fod pobl hŷn wedi goresgyn llawer o rwystrau i ddatgelu camdriniaeth; gyda llawer ohonynt yn gysylltiedig â'u canfyddiad o wasanaethau a pha mor agored ydynt i ymgysylltu. Mae'r adran ganlynol hon yn darparu rhai pwyntiau sy'n seiliedig ar ymarfer i ddatblygu ymateb arnynt, ond mae hefyd yn hanfodol bod sefydliadau'n ystyried y mater hwn ar lefel strategol ac mewn trefniadau partneriaeth.

Rheol Optimistiaeth

Mae dysgu o Adolygiadau Diogelu Oedolion[18] ac Adolygiadau o Laddiadau Domestig yn dangos bod gweithwyr proffesiynol yn rhoi gormod o hyder yng ngallu teuluoedd i ofalu'n effeithiol ac yn ddiogel am eu perthnasau. Gall yr hyder hwn olygu bod cam-drin, trais neu esgeulustod yn cael ei asesu'n anghywir fel digwyddiad untro sy'n deillio o straen sylweddol neu syniadau dryslyd person hŷn sydd â dementia, er enghraifft[19]. Yn aml, ymdrinnir ag achosion o'r fath o fewn dull amlasiantaeth heb unrhyw ymyriadau cyfiawnder troseddol.

Gelwir hyn yn 'reol optimistiaeth' a gall arwain at fethu achosion o gam-drin ac esgeuluso parhaus. Os oes amheuaeth o weithredoedd bwriadol o niwed neu anwaith sy'n arwain at esgeulustod, byddai gweithdrefnau diogelu ac atgyfeiriad i'r heddlu yn unol â'r fframwaith deddfwriaethol perthnasol yn dilyn.

Dyma'r pwyntiau i'w hystyried:

- A yw'r ymddygiad treisgar neu gamdriniol yn ddigwyddiad unigol neu'n rhan o batrwm o ddigwyddiadau, y gellid ei ddisgrifio fel ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol
- A oes hanes o atgyfeiriadau mewn perthynas ag ymddygiad treisgar neu gamdriniol neu gam-drin domestig
- A geisiwyd barn/safbwyntiau'r dioddefwr ac aelodau eraill o'r teulu yn annibynnol ac yn breifat? (mae Gorchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion yn opsiwn sydd ar gael i alluogi swyddog awdurdodedig Awdurdod Lleol i fodloni ei hun bod person sydd mewn perygl yn gallu siarad yn rhydd).

Mae hefyd yn bwysig bod gweithwyr proffesiynol yn ceisio osgoi'r canlynol:

- Gwneud tybiaethau cyffredinol am ofalwyr
- Ymdrechion anfeirniadol i weld y gorau yn y rheini sy'n cyflawni rôl gofalwr
- Osgoi ymyrryd rhag ofn y canlyniadau.
- Lleihau pryderon

[18] 20220224-Professional-Curiosity-Guidance-v1.01.pdf, 2022

[19] Domestic Abuse and Elder Abuse in Wales: A Tale of Two Initiatives | The British Journal of Social Work | Oxford Academic, 2018

- Peidio â gweld patrymau sy'n dod i'r amlwg
- Peidio â sicrhau bod ffocws cyson ar yr unigolyn sydd mewn perygl
- Derbyn esboniadau heb ddilysiad annibynnol
- Peidio â siarad â'r person hŷn ar ei ben ei hun
- Gorddibyniaeth ar wybodaeth a ddarperir gan ofalwyr neu aelodau o'r teulu

Dylai Gwasanaethau ac Ymarferwyr ystyried y pwyntiau canlynol yn eu gwaith (gweler Atodiad 2 am adnoddau ychwanegol):

- Cydnabyddiaeth y gallai fod angen cymorth proffesiynol ar ddioddefwyr hŷn am gyfnod hir yn dilyn ymyriadau diogelu. Gall y broses o adfer, gwneud penderfyniadau ac ymgysylltu â gwasanaethau fod dros gyfnod hirach.
- Sicrhau bod y rheini sy'n darparu gofal i bobl hŷn yn cael eu hyfforddi i gydnabod camdriniaeth a darparu ymyriad effeithiol. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant diogelu, hyfforddiant Gofyn a Gweithredu, a dull gweithredu parhaus sy'n ystyriol o drawma.
- Mwy o gydlynu rhwng gwasanaethau iechyd, diogelu a cham-drin domestig i gydnabod bod gofal, a materion dibyniaeth yn aml yn gysylltiedig â'i gilydd
- Targedu pobl hŷn gyda deunyddiau a negeseuon penodol. Peidio â thybio bod pobl hŷn yn ymwybodol o'r gwasanaethau sydd ar gael iddynt
- Bod yn ymwybodol y gallai pobl hŷn fod yn llai tebygol o ddatgelu a sicrhau bod gweithwyr proffesiynol yn gallu gofyn cwestiynau priodol a rhoi lle a chyfle i ddioddefwyr siarad dro ar ôl tro
- Ymgorffori hyrwyddwyr sefydliadol sydd â gwell gwybodaeth am drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (grŵp 3 y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol) mewn gwasanaethau cyhoeddus
- Sicrhau bod cam-drin domestig yn cael ei ystyried yn llawn mewn ymholiadau diogelu oedolion, ac yn ei dro bod trothwy diogelu oedolion yn cael ei ystyried mewn achosion cam-drin domestig
- Gweithio mewn partneriaeth ar draws gwasanaethau cyhoeddus a gwasanaethau trydydd sector arbenigol i gynnig gwasanaethau galw heibio ac allgymorth sy'n targedu pobl hŷn yn benodol
- Cynnig gwasanaeth cydlynol i bobl hŷn i sicrhau yr ymatebir yn briodol i bryderon ynghylch cam-drin domestig a bod systemau diogelu'n cael eu defnyddio'n effeithiol pan ddaw cam-drin i'r amlwg
- Ystyried adnoddau asesu risg i gefnogi barn broffesiynol ac atgyfeiriadau parhaus
- Sicrhau bod timau diogelu wedi ymrwymo i waith amlasiantaeth lleol effeithiol, gan gynnwys bod yn bresennol yn y Gynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC)

**Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr, ond mae'n gyfres o ystyriaethau o ran arferion gorau. Anogir ymarferwyr i ddefnyddio eu chwilfrydedd proffesiynol a bod yn ymwybodol o'r opsiynau sydd ar gael.*

Mae llawer o'r problemau sy'n wynebu dioddefwyr hŷn yn gyffredin i bawb sy'n dioddef cam-drin domestig. Fodd bynnag, mae profiadau dioddefwyr hŷn yn aml yn cael eu gwaethygu gan ffactorau cymdeithasol, diwylliannol a chorfforol sy'n gofyn am ymateb wedi'i deilwra.

Mae'n hanfodol bod unrhyw weithiwr proffesiynol sy'n cael gwybod am gam-drin domestig yn gweithredu'n effeithlon ac yn ddiogel i ddarparu ymateb sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n ystyriol o drawma. Bydd angen amser ar lawer o bobl hŷn i ddatgelu/trafod y cam-drin ac i benderfynu rhoi gwybod, gadael perthynas neu ymgysylltu â gwasanaethau statudol. Mae'n bwysig bod yn amyneddgar, yn anfeirniadol a rhoi cyfle iddynt rannu eu pryderon mewn amgylchedd diogel (pan nad yw'r sawl sy'n cam-drin yn bresennol).

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Deddf 2014") yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar Awdurdod Lleol i gynnal neu drefnu ymholiadau os credir bod 'oedolyn' (gan gynnwys pobl hŷn) yn cael ei gam-drin neu ei esgeuluso, neu mewn perygl o hynny. Dylid gwneud atgyfeiriadau diogelu pryd bynnag y cyrhaeddir trothwyon statudol, ni waeth a yw'r unigolyn yn dewis ymgysylltu â gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol ai peidio. Efallai y bydd angen ymyrryd mewn argyfwng os oes bygythiad uniongyrchol i fywyd.

LLINELL GYMORTH BYW HEB OFN
Mewn achosion lle nad yw gweithdrefnau diogelu'n briodol, dylai gweithwyr proffesiynol gysylltu â 'Llinell gymorth 24 awr 'Byw Heb Ofn' ar **0808 8010 800** a all gynnig cyngor a chyfeirio gweithwyr proffesiynol at wasanaethau sy'n gallu cynnig y cymorth mwyaf priodol - Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn adran adnoddau'r canllawiau hyn.

Llwybr at gefnogi pobl hŷn y mae cam-drin domestig yn effeithio arnynt



Cydnabod achosion o gam-drin - ‘Gofyn a Gweithredu’

Mae hyfforddiant “Gofyn a Gweithredu”, sy’n rhan o’r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol yn broses o ymholi wedi’i dargedu i’w hymarfer ar draws y Gwasanaeth Cyhoeddus i ganfod trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae’r term ‘ymholiad wedi’i dargedu’ yn disgrifio’r gydnabyddiaeth o ddangosyddion trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol fel ysgogiad i weithiwr proffesiynol ofyn i’w gleient a yw unrhyw un o’r materion hyn wedi effeithio arno. Mae Gofyn a Gweithredu yn fecanwaith atal ac ymyrryd yn gynnar allweddol yn fframwaith Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Cymru.

Nodau “Gofyn a Gweithredu” yw:

- cydnabod mwy o’r rheini sy’n dioddef trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol
- cynnig atgyfeiriadau ac ymyriadau i’r rheini a nodwyd sy’n darparu cymorth arbenigol yn seiliedig ar risg ac angen y cleient
- dechrau creu diwylliant ar draws y Gwasanaethau Cyhoeddus lle mae mynd i’r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn faes busnes cydnabyddedig a lle mae datgelu yn cael ei ddisgwyl, ei gefnogi, ei dderbyn a’i hwyluso
- gwella’r ymateb i’r rheini sy’n dioddef trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol sydd ag anghenion cymhleth eraill fel camddefnyddio sylweddau a materion iechyd meddwl
- ymgysylltu’n rhagweithiol â’r rheini sy’n agored i niwed ac yn guddiedig, cyn gynted â phosibl, yn hytrach nag ymgysylltu’n adweithiol yn unig â’r rheini sydd mewn argyfwng neu sydd mewn perygl uniongyrchol o niwed difrifol

Dylid defnyddio Gofyn a Gweithredu gyda phobl hŷn sy’n dangos arwyddion posibl o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae’r dangosyddion yn cynnwys symptomau meddygol (fel iselder, gorbryder neu boen heb esboniad meddygol), arwyddion sy’n gysylltiedig ag ymarweddiad ac ymddygiad y cleient, gan gynnwys newid agwedd neu ddarn o wybodaeth neu batrwm ymddygiad sy’n haeddu ymchwiliad (neu ‘sbardunau’). Mae tystiolaeth hefyd sy’n awgrymu bod ymchwiliad arferol yn briodol mewn rhai lleoliadau, fel gofal sylfaenol ac iechyd meddwl, gan fod y rheswm dros ymgysylltiad y cleient yn y lleoliad hefyd yn sbardun ar gyfer ymchwiliad mewn perthynas â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Yn Ymarferol:

Dylai ymholiadau proffesiynol am y profiad posibl o gam-drin domestig neu drais rhywiol ar gyfer pobl hŷn fod yn ddiwylliannol gymwys, yn sensitif i oedran ac yn ystyriol o drawma.
Mae'n ymyriad pwysig hyd yn oed pan nad yw'n arwain at ddatgelu gan ei fod yn:

- dangos fod y gweithwyr proffesiynol a'r sefydliad yn cymryd cam - drin o ddifri
- rhoi cyfle i'r dioddefwr fynd â gwybodaeth gydag ef i'w hystyried a'i hysbysu ei hun
- rhoi cyfle i gynnig gwybodaeth gwasanaeth arbenigol pa un a wneir datgeliad ai peidio

Er mwyn "Gofyn a Gweithredu" yn effeithiol gyda phobl hŷn, mae'n hanfodol bod gweithwyr proffesiynol yn ystyried yn ofalus y rhwystrau y gallai pobl hŷn eu hwynebu o ran datgelu ac yn gwneud yr hyn a allant i liniaru'r rhain. Mae'r canlynol yn ystyriaethau defnyddiol:

- Gwnewch yn siŵr eich bod ar eich pen eich hun gyda'r person cyn ymchwilio i gamdriniaeth bosibl - peidiwch byth â gofyn o flaen partner, ffrind neu blentyn - ac arhoswch yn effro i wrthwynebiad i hyn gan ofalwr neu aelod o'r teulu
- Byddwch yn glir ynghylch terfynau polisi cyfrinachedd eich sefydliad
- Gwnewch yn siŵr nad oes neb yn tarfu arnoch chi, a bod gennych chi a'r person hwnnw ddigon o amser
- Defnyddiwch gyfieithwyr proffesiynol yn unig - peidiwch â chaniatáu i aelodau o'r teulu na gofalwyr gyfieithu
- Pennwch alluedd person ar sail cwestiynau sy'n benodol i amser a phenderfyniad. Efallai y bydd angen gwneud atgyfeiriadau diogelu hyd yn oed os nad oes gan yr unigolyn alluedd i gydsynio
- Cofnodwch ymateb y person
- Gofynnwch i'r person a oes unrhyw ddyfeisiau recordio yn yr ystafell neu unrhyw beth arall a fyddai'n ei atal rhag gallu datgelu ei sefyllfa'n llawn
- Gofynnwch i'r unigolyn am ddigwyddiadau blaenorol, nid dim ond y digwyddiad sydd wedi ysgogi'r datgeliad - gall hyn helpu i ddeall patrymau ymddygiad, gwaethygiad neu niwed cronnus
- Gall patrwm ymddygiad gorfodaethol a rheolaethol greu ymdeimlad o ofn yn y dioddefwr. Mae nodi hyn yn bwysig iawn wrth benderfynu a yw rheolaeth drwy orfodaeth yn cael ei defnyddio fel rhan o'r cam-drin.

Mae'n hanfodol bod gweithwyr proffesiynol yn ei gwneud yn glir i'r dioddefwr (ym mhob achos o gam-drin) nad eu bai nhw yw'r cam-drin, yn eu grymuso i gael dewis,

ac yn pwysleisio cynllunio diogelwch, amddiffyniad a chefnogaeth gan weithwyr proffesiynol.

Ystyriaethau ychwanegol wrth weithio gyda phobl hŷn sydd wedi cael eu cam-drin:

Os bydd person hŷn sy'n profi cam-drin domestig yn datgelu ei brofiad o drais a/neu gam-drin, mae'n bwysig bod y datgeliad hwn yn cael ei ddilyn gan weithgaredd sy'n asesu ac wedyn yn mynd i'r afael â'r risgiau y mae'n eu hwynebu o natur y cam-drin, ochr yn ochr â'i anghenion parhaus. Mae'r maes ymarfer hwn yn gymhleth iawn, a dylid gofyn am gyngor gan ymarferwyr profiadol a gwybodus fel gwasanaethau cam-drin domestig arbenigol ac arweinwyr diogelu yn eich sefydliad.

Galluedd meddyliol a gwneud penderfyniadau

Wrth asesu risg person hŷn o niwed a'i anghenion, efallai y bydd angen i weithiwr proffesiynol sydd â chymwysterau priodol asesu ei alluedd meddyliol i wneud penderfyniad penodol ar adeg benodol. Dylai asesiadau hefyd ystyried bod galluedd meddyliol unigolyn yn gallu amrywio, oherwydd dementia, deliriwm, salwch meddwl neu effeithiau meddyginiaeth, ac felly efallai y bydd angen mwy nag un asesiad galluedd.

Gall asesu galluedd meddyliol fod yn arbennig o heriol mewn achosion sy'n ymwneud â cham-drin domestig a thrais rhywiol. Efallai fod yr unigolyn yn derbyn gofal gan aelod o'r teulu neu bartner agos, neu'n byw gydag aelod o'r teulu neu bartner agos, a bod yr unigolyn yn gwneud penderfyniadau sy'n ymwneud â'r perthnasoedd hyn sy'n ymddangos fel pe baent yn eu rhoi mewn perygl.

Mewn achosion o'r fath, bydd angen ceisio deall a yw'r penderfyniadau hyn yn 'benderfyniadau annoeth' y mae gan yr unigolyn y gallu a'r rhyddid i'w gwneud, neu benderfyniadau nad ydynt yn cael eu gwneud yn rhydd, oherwydd gorfodaeth a rheolaeth, ac felly'n rhan o'r cam-drin.

Efallai y bydd gweithwyr proffesiynol yn penderfynu, ar sail eu hasesiad galluedd, yr wybodaeth sydd ar gael a'r amser a dreulir gyda rhywun, bod yr unigolyn wedi gwneud 'penderfyniad annoeth' y mae ganddynt alluedd meddyliol drosto. Fodd bynnag, dylai unrhyw un sydd mewn perygl o gam-drin domestig gael cynnig yr un opsiynau cymorth, ni waeth pa 'benderfyniadau annoeth' y maent wedi'u gwneud.

Mae'r maes ymarfer hwn yn aml yn un o'r materion mwyaf cymhleth i'w hystyried wrth weithio ym maes diogelu pobl hŷn sy'n profi cam-drin domestig. Dylid ceisio

cyngor a chymorth arbenigol i sicrhau bod ystyriaethau priodol yn cael eu gwneud yn ystod asesiadau.

Mewn rhai amgylchiadau, er enghraifft lle mae pob cam arall wedi cael ei ddihysbyddu neu lle mae risg ddifrifol o niwed uniongyrchol, efallai y bydd Awdurdod Lleol yn dymuno ystyried cychwyn achos llys a cheisio defnyddio awdurdodaeth gynhenid yr Uchel Lys i ddiogelu oedolyn agored i niwed, gan gynnwys lle mae gallu'r dioddefwr i wneud penderfyniadau wedi cael ei beryglu oherwydd, er enghraifft, cyfyngiadau yn ei amgylchiadau, gorfodaeth neu ddylanwad gormodol. Fodd bynnag, bydd y camau priodol yn dibynnu ar amgylchiadau unigol a dylid eu hystyried fesul achos gan ystyried cyngor arbenigol.

Astudiaeth achos: Eirlys, 86 oed

Roedd Eirlys, 86 oed, yn byw gyda dementia ac roedd yn adnabyddus yn ei chymuned leol, gyda chysylltiadau cryf â'i theulu a'i ffrindiau. Cysylltodd cymdogion â'r heddlu ar ôl ei gweld, yn amlwg yn ofidus, yn ceisio dringo dros wal ei gardd. Roedd ganddi gleisiau ar ei hwyneb a dywedodd ei bod yn ceisio dianc oddi wrth ei gŵr. Yn ddiweddarach datgelodd Eirlys bod ei gŵr wedi bod yn ymosodol ar lafar ac yn gorfforol a'i fod wedi'i tharo yn ei hwyneb.

Gweithiodd yr heddlu a gweithwyr proffesiynol ym maes gofal cymdeithasol i oedolion gyda'i gilydd i gefnogi diogelwch uniongyrchol Eirlys. Symudodd i gartref gofal dros dro wrth i ymholiadau diogelu gael eu gwneud, ac aseswyd ei galluedd meddyliol. Ymgysylltwyd â gwasanaeth cam-drin domestig arbenigol ar gyfer pobl hŷn, gan alluogi Eirlys i ddisgrifio ei phrofiadau mewn ffordd gefnogol a hygyrch. Fe wnaeth hyn helpu gweithwyr proffesiynol i gofnodi ei hanes o gam-drin a nodi patrwm hirdymor ehangach o ymddygiad gorfodaethol a rheolaethol, yn hytrach na gweld yr ymosodiad fel un digwyddiad unigol.

Roedd hyn yn arbennig o bwysig oherwydd bod gallu meddyliol Eirlys yn amrywio. Ar ôl pythefnos, ni allai gofio'r ymosodiad diweddar mwyach a mynegodd ddymuniad i ddychwelyd adref. Er bod Eirlys wedi cael ei hasesu fel rhywun a oedd â'r galluedd i benderfynu ble a chyda phwy roedd hi'n byw, ystyriwyd nad oedd ganddi'r galluedd i ddeall y risgiau a berir iddi gan ei gŵr. Wrth wneud penderfyniadau, ystyriodd gweithwyr proffesiynol ei dymuniadau presennol ochr yn ochr â'i chofnod cynharach, anafiadau, arsylwadau'r cymdogion a'r hanes o gam-drin a nodwyd. Fe wnaeth hyn sicrhau bod llais, perthnasoedd a hawl Eirlys i ymreolaeth yn parhau i fod yn ganolog tra bod y risgiau i'w diogelwch yn cael eu hystyried yn llawn. [20]

[20] Astudiaeth achos wedi'i darparu gan Dewis Choice

Anghenion gofal a chymorth ychwanegol

Efallai y bydd gan bobl hŷn anghenion ychwanegol sy'n gysylltiedig â gofal a chymorth. Gall yr anghenion ychwanegol hyn fod yn gysylltiedig â chyflwr iechyd hirdymor neu anabledd, anabledd dysgu, nam ar y synhwyrau neu'r angen am feddyginiaeth ar bresgripsiwn.

Fel rhan o asesiad risg ac anghenion, dylai ymarferydd ystyried a yw anghenion gofal a chymorth person hŷn yn cael eu diwallu. Os yw'r ymarferydd yn teimlo y gallai fod angen cymorth ychwanegol, dylid gofyn i'r person hŷn am gydsyniad i atgyfeiriad am asesiad o anghenion gan Awdurdod Lleol yr unigolyn.

5. Cyflawni

Er y gall rhai pobl hŷn gael eu cam-drin gan bartner agos, naill ai mewn perthynas hirdymor neu berthynas newydd yn nes ymlaen mewn bywyd, maent yn fwy tebygol o gael eu cam-drin gan aelod o'r teulu neu berthynas na gan bartner presennol neu gyn-bartner[21].

Efallai y bydd pobl hŷn sydd â chyflyrau iechyd neu anableddau hirdymor yn derbyn gofal gan aelodau o'r teulu. Mae gofal o'r fath yn gyfraniad amhrisiadwy i gymdeithas, ond gall dibyniaeth ar ofal weithiau greu anghydbwysedd pŵer sylweddol a allai wneud pobl yn fwy agored i gael eu cam-drin, eu gorfodi a'u hecsbloetio.

Mae pa mor ynysig yw person hŷn a'r lefel o reolaeth y mae'n ei hwynebu yn cael ei gryfhau os yw'n dibynnu ar y sawl sy'n cam-drin am ei ofal a'i annibyniaeth. Yn dibynnu ar eu hamgylchiadau a'u hanghenion gofal a chymorth, efallai y bydd pobl hŷn yn ofni effeithiau ymyriadau os byddant yn rhoi gwybod am gam-drin domestig gan eu gofalwr sy'n aelod o'r teulu. Er enghraifft, colli cysylltiad â pherthnasau fel plant neu wyrion ac wyresau, colli cymorth ariannol, neu ofn cael eu rhoi mewn cartref gofal.

Gall yr ymddygiad camdriniol fod yn gysylltiedig â newid yn neinameg y berthynas rhwng plentyn sy'n oedolyn a'r rhiant hŷn[22]; gall fod yn gysylltiedig â chyd-ddibyniaeth a dibyniaeth person hŷn ar y sawl sy'n cam-drin am ei ofal. Gall newidiadau mewn trefniadau byw arwain at fwy nag un person yn cam-drin y person hŷn, er enghraifft mab a merch yng nghyfraith. Dylai ymarferwyr fod yn effro i arwyddion o gam-drin rhiant gan blant sy'n oedolion a pharhau i ddefnyddio â'u chwilfrydedd proffesiynol wrth weithio gyda theuluoedd pobl hŷn.

Mae deall ffactorau sy'n cyfrannu at gam-drin yn bwysig, ond ni ddylai arwain at leihau camdriniaeth, na thynnu oddi wrth y ddyletswydd broffesiynol i gydnabod, asesu ac ymateb i risg. Dylai diogelwch, lles a llais dioddefwr barhau i fod yn ganolog yn y broses hon.

Mae'n bwysig cydnabod bod ymyrryd â'r rheini sy'n cyflawni cam-drin domestig yn faes ymarfer cymhleth sy'n datblygu ac sy'n gofyn am lawer o sgiliau. Dylai arfer gorau gynnwys gweithio mewn partneriaeth â rhaglen achrededig ar gyfer y rheini sy'n cam-drin. Mae argaeledd rhaglenni i'r rheini sy'n cam-drin yn amrywio ledled Cymru. Dylai ymarferwyr wneud ymholiadau gydag asiantaethau cymorth arbenigol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn eu hardal leol.

---

[21] TRANSFORMING THE RESPONSE TO DOMESTIC ABUSE IN LATER LIFE: PRACTITIONER GUIDANCE, Dewis Choice, 2020

[22] ACPA Good Practice Toolkit.pdf, 2025

Rhaid i'r rheini sydd ddim yn arbenigwyr yn y maes fod yn ofalus wrth weithio gyda'r rhai sy'n defnyddio camdriniaeth i sicrhau nad ydynt yn cydgynllwynio â'r ymddygiad. Gall cydgynllwynio o'r fath gynnwys beio'r dioddefwr, tanseilio safbwynt y goroeswr o'r sefyllfa, peidio â herio'r ymddygiad fel un annerbyniol neu ei gyfiawnhau.

Dylid hefyd ystyried ymatebion i'r sawl sy'n cam-drin a dylid cymryd unrhyw gamau mewn ffordd ddiogel a gwybodus. Ar gyfer y sawl sy'n cam-drin y mae eu hymddygiad yn ymateb i'r newid yn anghenion y dioddefwr, gall hyn olygu ailasesu trefniadau gofal a chymorth ychwanegol.

6. Camau Gweithredu ar gyfer Ymarferwyr

Pan fydd person hŷn yn 'Oedolyn mewn Perygl', dylai pob asiantaeth ddefnyddio'r prosesau diogelu statudol. Mae cyfrifoldebau diogelu yn berthnasol i'r holl asiantaethau partner - mae diogelu effeithiol yn dibynnu ar rannu gwybodaeth yn amserol, herio proffesiynol a gwneud penderfyniadau ar y cyd.

Os yw achos yn cynnwys cam-drin domestig wedi'i ddatgelu neu wedi'i amau, **dylid** cynnwys gwasanaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol arbenigol cyn gynted â phosibl, yn enwedig os oes amheuaeth o reolaeth drwy orfodaeth, trais rhywiol neu gam-drin domestig risg uchel.

Dylai hyn hefyd gynnwys cwblhau asesiad risg, i gefnogi barn broffesiynol, sy'n ymwneud yn benodol â cham-drin domestig, ac atgyfeiriad i'r Gynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (MARAC) leol os cyrhaeddir y trothwy.

Beth yw Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg?

Mae Cynadleddau Amlasiantaeth Asesu Risg (MARACs) yn gyfarfodydd lleol rheolaidd sy'n trafod sut i helpu dioddefwyr sydd â risg uchel o lofruddiaeth neu niwed difrifol oherwydd cam-drin domestig.

Mae Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg yn cynnwys arbenigwr ar gam-drin domestig, yr heddlu, gwasanaethau cymdeithasol, asiantaethau iechyd ac asiantaethau perthnasol eraill. Maent yn trafod ac yn rhannu gwybodaeth am bob dioddefwr, y sawl sy'n eu cam-drin ac unrhyw ddibynyddion mewn perthynas â'u risg o lofruddiaeth neu gam-drin pellach. Unwaith y bydd hyn wedi digwydd, bydd cadeirydd Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (arweinydd diogelu'r cyhoedd yr heddlu fel arfer) yn amlinellu pob risg ac yn gofyn i'r asiantaethau gymryd camau i leihau a/neu ddileu'r risg honno. Bydd y camau gweithredu'n ymwneud â'r dioddefwyr, y rheini sy'n cam-drin a'r dibynyddion, ac fe'u defnyddir i lunio cynllun gweithredu, fydd yn cynnwys anghenion gofal a chymorth y dioddefwr os yw hynny'n briodol.

Mae cynrychiolaeth gweithiwr proffesiynol diogelu oedolion yn y Gynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg yn ymateb effeithiol i ddiogelu person hŷn rhag cael ei gam-drin ymhellach, a dylid bod ymgysylltu parhaus rhwng gwasanaethau diogelu a cham-drin domestig.

Gellir cyfeirio at gynlluniau diogelu, a gychwynnwyd gan wasanaethau cymdeithasol oedolion, ac ychwanegu atynt yn ystod y Gynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg os nodir camau pellach i leihau lefelau risg.

Dylai defnyddio llwybrau diogelu a cham-drin domestig[23] sicrhau bod y person hŷn yn cael yr adnoddau diogelu sy'n briodol i nodweddion y cam-drin ac anghenion croestoriadol yr unigolyn. Wrth gwrs, mae'n bwysig bod rolau a llwybrau'n cael eu trafod yn ôl yr angen ar lefelau strategol a gweithredol, fel Byrddau Diogelu Rhanbarthol, a threfniadau partneriaeth lleol i bennu manteision gwahanol lwybrau, ac ar ba bwynt y dylid mabwysiadu dull integredig.

Bydd sefydlu llwybrau cyson yn darparu'r ymateb mwyaf effeithiol i ddioddefwyr hŷn cam-drin domestig ac yn cynnig eglurder mewn perthynas â chanllawiau atgyfeirio i ymarferwyr. Bydd protocolau rhannu gwybodaeth hefyd yn cefnogi gweithio mewn partneriaeth.

Beth i'w wneud pan na chyrhaeddir trothwy'r Gynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg.

Pan na chyrhaeddir trothwyon y Gynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg (dim ond i'r rheini sydd â risg uchel y maent ar gael) dylid hefyd ystyried atgyfeiriad at wasanaeth cam-drin domestig arbenigol lleol gan y gallai fod risg o fregusrwydd a niwed sylweddol o hyd. Dylid cynnwys ymarferydd cam-drin domestig arbenigol lleol mewn unrhyw gyfarfodydd strategaeth Diogelu Oedolion, ymchwiliadau a chynadleddau achos i sicrhau bod y cyfarfod yn elwa o'r arbenigedd hwn a bod gwasanaethau cam-drin domestig yn cael eu nodi a'u cynnwys mewn unrhyw gynlluniau diogelu.

Os nad ydych chi'n siŵr o'r gwasanaeth cam-drin domestig arbenigol lleol neu'r arbenigwr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol cywir, dylid cysylltu â LLINELL GYMORTH BYW HEB OFN a all helpu i gyfeirio at wasanaethau sydd ar gael yn lleol.

Gyda diogelu pobl hŷn, fel ym mhob math o gymorth iechyd a gofal cymdeithasol, mae egwyddor grymuso yn golygu bod canlyniadau wrth galon popeth sy'n cael ei wneud i gefnogi'r unigolyn, ac mae hynny'n cael ei ddangos drwy 'ddull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn' - beth mae'r sawl sydd wedi cael ei niweidio eisiau ei weld yn digwydd? Dylai gweithwyr proffesiynol fod yn ymwybodol y gallai'r dymuniadau hyn newid dros amser wrth i ymddiriedaeth ddatblygu ac wrth i opsiynau cymorth ddod yn gliriach.

Bydd dod o hyd i iaith gyffredin a diffiniadau gwaith y gellir eu rhannu ar draws gwahanol gyd-destunau hefyd yn cryfhau cysylltiadau. Efallai na fydd termau fel

[23] Domestic Abuse and Elder Abuse in Wales: A Tale of Two Initiatives | The British Journal of Social Work | Oxford Academic, 2018

‘dioddefwr’, ‘y sawl sy’n cam-drin’ a ‘goroeswr’ yn briodol mewn gwaith diogelu oedolion yn gyffredinol ond maent yn briodol pan gânt eu defnyddio yng nghyd-destun cam-drin domestig a thrais rhywiol. Gall yr eirfa yn Atodiad 4 eich helpu gyda hyn. Bydd dealltwriaeth gyffredin o drawma, risg ac ymarfer sy’n canolbwyntio ar y dioddefwr hefyd yn helpu gyda gweithio mewn partneriaeth.

Mae gwneud y cysylltiadau rhwng diogelu pobl hŷn a cham-drin domestig yn hanfodol er mwyn sicrhau bod pobl yn cael y cymorth gorau y gellir ei gynnig, eu bod yn cael eu trin ag urddas a pharch, a’u bod yn cael eu cefnogi i sicrhau’r canlyniadau gorau iddynt.

Dylai gweithwyr proffesiynol hefyd ystyried sut y gall pobl hŷn brofi stelcio, aflonyddu a mathau eraill o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a defnyddio egwyddorion tebyg.

Gweithio gyda’r sector arbenigol

Yn ogystal ag atgyfeiriadau diogelu, gall pobl hŷn sydd wedi profi, neu sy’n profi trais a cham-drin ar hyn o bryd elwa o gymorth cydweithredol gan wasanaethau arbenigol sy’n gallu cynnig cynllunio diogelwch, cwnsela a chyfleoedd cymorth therapiwtig eraill. Mae llawer o anghenion cynllunio cymorth a diogelwch dioddefwyr cam-drin domestig yn eithaf tebyg ar draws grwpiau oedran – er enghraifft, yr angen am dai diogel a mynediad at wasanaethau priodol i ddiwallu eu hanghenion. Fodd bynnag, efallai y bydd pobl hŷn hefyd yn wynebu rhwystrau ychwanegol fel y nodwyd yn gynharach yn y canllawiau hyn.

Cynigir gwasanaethau cymorth fel y bo’r angen i ddefnyddwyr gwasanaethau sydd ag angen cymorth sy’n gysylltiedig â thai ac sy’n dymuno aros yn eu cartrefi eu hunain. Gellir cynnig cymorth ni waeth a yw’n dal mewn perthynas â’r sawl sy’n eu cam-drin. Bydd y cymorth naill ai’n digwydd yn eu cartrefi, pan fydd hi’n ddiogel gwneud hynny, neu mewn man mwy cyhoeddus yn y gymuned. Gall y gwasanaethau hyn ddarparu cymorth gyda diogelwch tai, budd-daliadau, ynysu cymdeithasol, a chynllunio diogelwch. Mae darpariaeth Cymorth fel y bo’r Angen yn amodol ar argaeledd gwasanaethau lleol a meini prawf cymhwysedd, ac felly dylai ymarferwyr holi eu gwasanaethau arbenigol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol lleol.

Mae Cymorth Allgymorth ar gael mewn rhai ardaloedd ledled Cymru i unrhyw un sydd wedi profi cam-drin domestig. Mae Cefnogaeth Allgymorth yn debyg i Gefnogaeth fel y bo’r Angen, a gellir darparu’r gefnogaeth yng nghartrefi defnyddwyr y gwasanaeth, pan fydd hi’n ddiogel gwneud hynny, neu mewn man mwy cyhoeddus yn y gymuned. Mae gweithwyr allgymorth yn darparu cymorth emosiynol a

gwybodaeth ymarferol i oedolion sy'n profi cam-drin domestig ac maent o fudd i bobl hŷn sydd â rhwystrau symudedd, trafnidiaeth, iechyd neu hyder wrth gael gafael ar wasanaethau.

Mae materion sy'n ymwneud ag iechyd corfforol a meddyliol neu ddefnyddio sylweddau yn aml yn fwy difrifol mewn pobl hŷn. Mae pobl hŷn hefyd yn llai tebygol o roi gwybod am gam-drin, ac mae eu hanghenion gwasanaeth yn tueddu i fod yn ehangach, gyda dewis eang o wasanaethau cymorth gan gynnwys cwnsela tymor hir, help gydag alcohol neu gyffuriau a chymorth gydag arian. Bydd ymgysylltu rhagweithiol yn cefnogi pobl hŷn na fyddant o bosibl yn cysylltu â gwasanaethau'n annibynnol.

Cynghorwyr Annibynnol

Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig

Prif bwrpas Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig (IDVAs) yw mynd i'r afael â diogelwch dioddefwyr sydd mewn perygl mawr o niwed gan bartneriaid agos, cyn-bartneriaid neu aelodau o'r teulu er mwyn sicrhau eu diogelwch.

Gan wasanaethu fel prif bwynt cyswllt dioddefwyr, mae Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig fel arfer yn gweithio gyda'u cleientiaid o'r adeg pan fydd argyfwng i asesu lefel y risg, trafod yr ystod o opsiynau addas a datblygu cynlluniau diogelwch. Gallant ddarparu eiriolaeth, cydgysylltu ag iechyd a gofal cymdeithasol, a chymorth wrth gael mynediad at systemau cymhleth o wasanaethau, a allai fod o fudd i bobl hŷn.

Mae Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig yn mynd ati'n rhagweithiol i roi'r cynlluniau ar waith, sy'n mynd i'r afael â diogelwch uniongyrchol, gan gynnwys camau ymarferol i ddiogelu'r cleient a'i blant, yn ogystal ag atebion tymor hwy. Bydd y cynlluniau hyn yn cynnwys camau gweithredu o'r Gynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg yn ogystal â sancsiynau a datrysiadau sydd ar gael drwy'r llysoedd troseddol a sifil, opsiynau tai a gwasanaethau sydd ar gael drwy sefydliadau eraill.

Mae Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig yn gweithio dros y tymor byr i'r tymor canolig i gefnogi unigolion i fod yn ddiogel yn y tymor hir. Maent yn derbyn hyfforddiant achrededig arbenigol ac yn meddu ar gymhwyster a gydnabyddir yn genedlaethol. Gan eu bod yn gweithio gyda'r achosion risg uchaf, mae Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig yn fwyaf effeithiol fel rhan o wasanaeth Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig ac o fewn fframwaith aml-asiantaeth.

Rôl y Cynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig ym mhob lleoliad aml-asiantaeth yw sicrhau bod safbwynt a diogelwch y cleient yn ganolog i'r achos. Mae astudiaethau wedi dangos pan fydd cleientiaid risg uchel yn ymgysylltu â Chynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig, bod gwelliannau clir a mesuradwy o ran diogelwch, gan gynnwys gostyngiad yn nifer yr achosion o gam-drin a pha mor ddifrifol ydynt a gostyngiad neu hyd ataliad mewn cam-drin sy'n digwydd dro ar ôl tro[24].

Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol

Mae Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol (ISVAs) yn gallu cynnig amrywiaeth eang o gymorth i'r rheini sydd wedi profi trais rhywiol, gan eu cefnogi drwy unrhyw brosesau cyfreithiol a meddygol a allai fod yn gysylltiedig. Gallai cymorth ychwanegol gan Gynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol fod yn gymorth emosiynol ac ymarferol. Mae Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol yn gallu darparu eiriolaeth arbenigol i bobl hŷn i fynd i'r afael â rhwystrau posibl drwy gydol prosesau gofal iechyd, fforensig a chyfiawnder troseddol.

Cynghorwyr Stelcio Annibynnol (ISAs)

Mae Cynghorydd Stelcio Annibynnol (ISA) yn eiriolwr arbenigol sy'n cefnogi dioddefwyr stelcio yn yr un ffordd ag y mae Cynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig yn cefnogi dioddefwyr cam-drin domestig. Cafodd y rôl ei chydnabod yn ffurfiol drwy ganllawiau statudol a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Dioddefwyr a Charcharorion 2024 Llywodraeth y DU. Er bod gwasanaethau eiriolaeth stelcio wedi bod ar waith mewn rhai ardaloedd ers sawl blwyddyn, yn aml o dan y teitl Gweithiwr Achos Eiriolaeth Stelcio Annibynnol (ISAC), maent felly, adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, yn rôl eiriolaeth arbenigol gymharol newydd.

Mae eu rôl yn cynnwys asesu risg stelcio, datblygu cynlluniau diogelwch, a helpu dioddefwyr i lywio drwy'r system cyfiawnder troseddol. Maent hefyd yn gweithio i eirioli ar ran y dioddefwr gyda'r heddlu, asiantaethau tai, iechyd ac asiantaethau eraill, cefnogi ceisiadau am fesurau diogelu, a sicrhau bod llais y dioddefwr yn cael ei glywed drwy gydol ymchwiliadau a phrosesau'r llys.

Mynediad at loches

Mae llochesi'n cynnig llety diogel sy'n ymateb i rywedd ar gyfer menywod, dynion a phlant sy'n dianc rhag cam-drin domestig. Mae'r llety naill ai mewn amgylchedd a rennir (cyfleustodau a rennir gydag ystafelloedd personol), mewn llety hunangynhwysol yn yr un adeilad neu mewn "unedau gwasgaredig" mewn llety a

[24] Idva services Insights dataset - SafeLives

benodir ar wahân. Mae amrywiaeth eang o opsiynau llety lloches ar gael yng Nghymru a'r DU. Efallai na fydd pobl hŷn yn nodi ar unwaith bod llety lloches yn addas ar eu cyfer, ac felly efallai y bydd angen sicrwydd ychwanegol arnynt ynghylch hygyrchedd, anghenion gofal a threfniadau cymorth wrth ddefnyddio lloches.

Rydym yn argymell eich bod yn siarad â Byw Heb Ofn sydd â mynediad at Lwybrau at Gymorth – cronfa ddata fyw sy'n nodi argaeledd llochesi ledled y DU, y gellir eu hidlo yn ôl angen unigol.

Gall effaith hygyrchedd corfforol, nam ar y synhwyrau neu nam gwybyddol ar anghenion llety fod yn rhwystrau sylweddol i bobl hŷn wrth geisio cymorth. Mae'n bwysig bod gweithwyr proffesiynol yn sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r mathau o lochesi sydd ar gael yn lleol ac ar draws Cymru a sut i wneud atgyfeiriadau effeithiol.

Help i aros yng nghartref y person ei hun

Gellir rhoi cymorth i helpu pobl i aros yn eu cartref eu hunain, naill ai gyda neu heb y sawl sy'n cam-drin yn byw yno. Mae hyn yn gofyn am asesiad risg cadarn a chynllunio diogelwch parhaus. Mae gwasanaethau ar gael sy'n gallu cynnig gwaith caledu targed i eiddo unigolyn a gall cymorth fel y bo'r angen sy'n gysylltiedig â thai ddigwydd yn eu cartref.

Fe wnaeth Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 gryfhau amddiffyniadau i ddioddefwyr a goroeswyr cam-drin domestig drwy gyflwyno trefniadau mwy hyblyg ar gyfer contractau meddiannaeth ar y cyd. Mae hyn yn ei gwneud yn haws tynnu'r sawl sy'n cam-drin o gontract ar y cyd heb ddod â'r contract meddiannaeth i ben yn gyfan gwbl, gan helpu dioddefwyr a goroeswyr i aros yn ddiogel yn eu cartref yn hytrach na gorfod gadael neu derfynu'r denantiaeth eu hunain.

Ceisio cyfleoedd am gefnogaeth ym maes cyfiawnder troseddol a sifil

Mewn rhai achosion, bydd y cam-drin sy'n cael ei gyflawni gan y rheini sy'n cam-drin yn droseddol. Pan fydd trosedd wedi'i gyflawni neu os amheuir trosedd, mae dyletswydd ar yr heddlu i ymchwilio. Gellir arestio ac erlyn cyflawnwyr honedig os oes digon o dystiolaeth. Fodd bynnag, dylai gweithwyr proffesiynol gydnabod efallai na fydd rhai dioddefwyr yn dymuno ymgysylltu â phrosesau cyfiawnder troseddol ac efallai y byddant yn gofyn am gymorth, amddiffyniad a lleihau risg drwy lwybrau eraill yn lle hynny. Efallai y bydd dyletswyddau diogelu, pryderon diogelu'r cyhoedd neu ystyriaethau troseddau difrifol yn golygu bod angen rhannu gwybodaeth neu atgyfeirio heb ganiatâd y dioddefwr, er budd y cyhoedd.

Rhoddir gwybod am droseddau ac ymdrinnir â nhw drwy'r system cyfiawnder troseddol sy'n cynnwys nifer o asiantaethau allweddol: yr heddlu; Gwasanaeth Erlyn y Goron; y llysoedd (llysoedd ynadon a Llys y Goron); a'r gwasanaeth prawf. Yn dibynnu ar y casgliadau a wneir drwy'r System Cyfiawnder Troseddol, gall opsiynau amddiffynol fod ar gael i'r person hŷn gan gynnwys gorchmynion atal a gorchmynion amddiffyn.

Gellir hefyd ystyried rhwymedïau cyfiawnder sifil, fel gwaharddeb, gorchymyn peidio â molestu neu orchymyn atal, lle bo hynny'n briodol a lle teimlir y byddai hyn yn ddefnyddiol i amddiffyn y rhai sy'n cael eu cam-drin. Dylai gweithwyr proffesiynol gyfeirio pobl hŷn at wasanaethau eiriolaeth a chyngor cyfreithiol arbenigol a all eu helpu i ddeall pa fesurau diogelu sydd ar gael iddynt.

Atodiad 1: Adnoddau, gwybodaeth a chyfeirio ar gyfer gweithwyr proffesiynol

Isod ceir rhestr o adnoddau cenedlaethol a ffynonellau gwybodaeth a allai eich helpu wrth weithio gyda pherson hŷn sydd mewn perygl o gam-drin domestig neu agweddau ehangach ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Fel gweithwyr proffesiynol, mae hefyd yn bwysig eich bod yn ymgyfarwyddo â'ch gwasanaethau diogelu, trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a chymorth cymunedol lleol a'r llwybrau atgyfeirio i gael gafael arnynt.

Llinell Gymorth Byw Heb Ofn	Mae Llinell Gymorth Byw Heb Ofn yn wasanaeth cyfrinachol, rhad ac am ddim, 24/7 yng Nghymru sy'n cynnig cyngor, cefnogaeth a gwybodaeth i unrhyw un y mae cam-drin domestig, trais rhywiol neu drais yn erbyn menywod yn effeithio arno. Mae'n cefnogi dioddefwyr, goroeswyr, unigolion pryderus a gweithwyr proffesiynol dros y ffôn, drwy negeseuon testun, e-bost a sgwrsio byw. Mae'r gwasanaethau'n cynnwys rheoli risg, cynllunio diogelwch, cefnogaeth emosiynol, ac atgyfeiriadau at sefydliadau arbenigol. **Manylion Cyswllt:** **Ffôn:** 0808 80 10 800 **Testun:** 07860 077333 **E-bost**: info@livefearfreehelpline.wales **Sgwrsio Byw:** Ar gael drwy llyw.cymru/byw-heb-ofn Mae'r gwasanaeth yn ddwyieithog ac yn defnyddio Llinell Iaith i gefnogi ymgysylltu ag unigolion nad Cymraeg na Saesneg yw eu hiaith gyntaf. Mae'r llinell gymorth yno i gefnogi gweithwyr proffesiynol a gall ddarparu sesiynau allgymorth wedi'u teilwra i gefnogi'r gwaith o feithrin perthynas rhwng y llinell gymorth a gwasanaethau sy'n cefnogi dioddefwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.
Asesiad Risg DASH SafeLives	Mae asesiad risg DASH (Cam-drin Domestig, Stelcio a Thrais ar Sail Anrhydedd) SafeLives yn adnodd strwythuredig sy'n cael ei ddefnyddio gan weithwyr proffesiynol i ganfod dioddefwyr cam-drin domestig risg uchel. Mae'n cynnwys cyfres o gwestiynau sy'n asesu ffactorau fel gwaethygiad, bygythiadau a rheolaeth. Mae achosion risg uchel yn cael eu cyfeirio at Gynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg ar gyfer diogelu cydlynol. Yng Nghymru, mae gwaith yn mynd rhagddo i ganfod cyfleoedd i wella'r broses asesu risg ar gyfer pobl hŷn, gan gydnabod y gallai fod angen barn broffesiynol fedrus ar yr adnoddau sydd ar gael ar hyn o bryd i sicrhau bod risg yn cael ei chofnodi'n briodol, yn enwedig pan fydd gan bobl hŷn anghenion gofal a chymorth cymhleth. Dylai ymarferwyr barhau i fod yn ymwybodol o unrhyw ddiweddariadau i asesiadau risg.

Y Sector Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Arbenigol yng Nghymru	Mae sector trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol arbenigol yng Nghymru yn cynnwys sefydliadau sy'n darparu cymorth wedi'i deilwra i ddioddefwyr a goroeswyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae'r gwasanaethau'n cynnwys llety lloches, eiriolaeth, cwnsela ac allgymorth. Mae'r sefydliadau hyn yn cydweithio ag asiantaethau statudol o dan Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Llywodraeth Cymru i sicrhau cymorth hygyrch sy'n cael ei arwain gan anghenion ac sy'n ystyriol o drawma ar draws cymunedau. Dylai gweithwyr proffesiynol sefydlu perthynas leol â darparwyr arbenigol i wella llwybrau atgyfeirio, cyfleoedd ymgynghori a chydweithio. Mae'n bwysig bod gwasanaethau'n hygyrch ac yn ymateb i anghenion pobl hŷn, gan gynnwys symudedd, nam ar y synhwyrau, nam gwybyddol ac allgáu digidol. Gallwch chwilio am eich gwasanaeth lleol ar-lein neu siaradwch â Byw Heb Ofn a all roi'r wybodaeth., y cyfeiriadau a'r cyfleoedd atgyfeirio perthnasol i chi
Gweithdrefnau Diogelu Cymru	Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn darparu un fframwaith cyson ar gyfer diogelu plant ac oedolion mewn perygl ledled Cymru. Maent yn cefnogi cydymffurfio â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac yn sicrhau bod pawb yn gyfrifol am ddiogelu. Mae'r gweithdrefnau'n amlinellu sut i nodi, adrodd ac ymateb i bryderon ynglŷn â cham-drin, esgeulustod neu niwed.
Y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol (NTF_	Mae'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol yn fframwaith statudol o dan Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015. Mae'n sicrhau hyfforddiant cymesur a chyson ar draws gwasanaethau cyhoeddus a'r sector arbenigol i wella ymyrraeth gynnar, atal a chymorth i ddioddefwyr. Dylai hyfforddiant gael ei ategu gan oruchwyliaeth, ymarfer myfyriol a datblygiad proffesiynol parhaus i gefnogi defnydd effeithiol yn ymarferol. Mae pob gweithiwr proffesiynol yn perthyn i un o chwe grŵp, pob un â gofynion hyfforddi sylfaenol. • Grŵp 1 – E-ddysgu Cynulleidfa: Statudol ar gyfer pob gweithiwr proffesiynol yn y gwasanaethau cyhoeddus. Disgwyliadau: Cwblhau hyfforddiant ymwybyddiaeth sylfaenol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, adnabod arwyddion, a gwybod pa gymorth sydd ar gael. Adnodd: E-ddysgu am ddim drwy GIG Cymru. • Grŵp 2 – Gofyn a Gweithredu Cynulleidfa: Gweithwyr proffesiynol sy'n debygol o ddod ar draws trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (e.e. iechyd, gofal cymdeithasol, tai). Disgwyliadau: Adnabod arwyddion, gofyn yn sensitif, a gweithredu drwy gynnig opsiynau ac atgyfeiriadau.

	• Grŵp 3 – Hyrwyddwyr Gofyn a Gweithredu Cynulleidfa: Unigolion sy'n cefnogi cydweithwyr ac yn gweithredu fel hyrwyddwyr sefydliadol. Disgwyliadau: Darparu arweiniad, cynorthwyo'r broses o wneud penderfyniadau, a hyrwyddo arferion gorau yn fewnol. • Grŵp 4 - Sector Arbenigol Cynulleidfa: Gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda goroeswyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn unig. Disgwyliadau: Ymarfer uwch sy'n seiliedig ar drawma ac ymyriadau arbenigol. • Grŵp 5 Rheolwyr y Sector Arbenigol Cynulleidfa: Arweinwyr sy'n rheoli gwasanaethau arbenigol. Disgwyliadau: Sicrhau ansawdd, cydymffurfiaeth a datblygiad staff mewn sefydliadau arbenigol. • Grŵp 6 - Arweinwyr Gwasanaethau Cyhoeddus Cynulleidfa: Uwch arweinwyr ym maes gwasanaethau cyhoeddus. Disgwyliadau: Sbarduno newid diwylliant sefydliadol, ymgorffori blaenoriaethau trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a dyrannu adnoddau'n effeithiol.
Byw Heb Ofn - Gall Cam-drin Ddigwydd ar Unrhyw Oedran - gwybodaeth am yr ymgyrch, adnoddau a phecyn cymorth proffesiynol.	Gall cam-drin ddigwydd ar unrhyw oedran | LLYW.CYMRU Os bydd eich gwaith yn dod â chi i gysylltiad â phobl hŷn, efallai mai chi fydd y person cyntaf i sylwi ar arwyddion o gam-drin rhywiol neu gam-drin domestig. Mae ein pecyn cymorth dwyieithog byr yn cynnig arweiniad ar y canlynol: • adnabod arwyddion cam-drin a thrais rhywiol mewn pobl hŷn • dechrau sgyrsiau diogel a sensitif • ymateb os bydd rhywun yn awgrymu niwed rhywiol • cyfeirio rhywun am gymorth Mae'r pecyn cymorth hwn wedi cael ei greu i'ch helpu i adnabod arwyddion posibl o gam-drin a rhoi cymorth diogel ac ystyriol i chi. Mae hyn yn cynnwys allbrint un dudalen gynnil i'w ddefnyddio'n breifat fel canllaw byr. **Llwythwch y pecyn cymorth i lawr** Mae deunyddiau'r ymgyrchu, gan gynnwys graffeg cyfryngau cymdeithasol, ar gael i chi eu llwytho i lawr a'u defnyddio ar eich sianeli. Mae'r adnoddau hyn yn helpu i godi ymwybyddiaeth o'r ffaith bod cam-drin yn gallu digwydd ar unrhyw oedran ac yn cyfeirio pobl hŷn at gymorth cyfrinachol. **Llwythwch ddeunyddiau'r ymgyrch i lawr**
Taflen Ffeithiau Diogelu Pobl Hŷn yng Nghymru rhag Camdriniaeth ac Esgeulustod Age Cymru	Gwybodaeth i unrhyw un sy'n poeni am gam-drin pobl hŷn, gan gynnwys unigolion sy'n poeni am eu hamgylchiadau eu hunain, gweithiwr proffesiynol, gofalwr, perthynas neu ffrind - Taflen Ffeithiau Diogelu pobl hŷn yng Nghymru Age Cymru

Atodiad 2: Ffeithlun Hybu Ymgysylltiad â Phobl Hŷn

Hybu ymgysylltu â phobl hŷn

Plismona yng Nghymru
Policing in Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Sut allwn ni fod yn fwy hygyrch i bobl hŷn?

Mae gwasanaethau arbenigol a goroeswyr cam-drin wedi rhannu arferion gorau a syniadau defnyddiol i ddangos sut y gallwch addasu eich dull o weithio er mwyn annog pobl hŷn i ddefnyddio'r cymorth yr ydych yn ei gynnig yn ddiogel ac yn effeithiol

Arferion

- Croesawu adborth gan ddefnyddwyr hŷn eich gwasanaeth – deall beth sy'n gweithio iddyn nhw.
- Hyrwyddo cysylltiadau cymdeithasol cadarnhaol gyda theulu, ffrindiau a'r gymuned y tu allan i'r gwasanaethau.
- Cyflwyno cymorth cyfannol – ystyried pecynnau cymorth cyllid a budd-daliadau i helpu rhywun i ddod yn annibynnol.
- Lleihau'r elfennau ffurfiol i annog datgelu a chysur – rhowch y llyfr nodiadau / gliniadur i lawr weithiau.
- Casglu'r data cywir i ddangos angen.

> **Y broblem yw, dwi ddim yn gwybod beth dwi eisiau help ag ef nes i chi ddweud wrtha i beth sydd ar gael. Dwi ddim bob amser yn gwybod beth dwi ei eisiau, na beth mae gen i hawl iddo, nes i chi ddweud wrtha i.**
> Goroeswr Gwrywaidd.

Lleoedd

- Gwneud eich adeiladau'n hygyrch.
- Ystyried unedau symudol – nid yn unig ar gyfer apwyntiadau symudol ond eu rhoi mewn mannau prysur fel meysydd parcio'r archfarchnadoedd.
- Mynd i ffeiriau pentref, ffeiriau gwledig ac Eisteddfodau.
- Gweithio gyda meddygfeydd i gytuno y gellir cynnal cyfarfodydd yn y feddygfa, sy'n hawdd eu cyrraedd i lawer o bobl.
- Hwyluso cyfarfodydd a thrafodaethau y tu allan i gartref yr unigolyn pan fyddai'n fuddiol.
- Sicrhau lefelau priodol o breifatrwydd a chyfrinachedd os yn cefnogi rhywun mewn cartref preswyl neu ysbyty.

> **Pe bydden nhw wedi cynnig seibiant i mi yn rhywle i ffwrdd o'r tŷ, efallai y gallwn i fod wedi agor i fyny.**
> Goroeswr Gwrywaidd.

Pobl

- Cyflogi staff a gwirfoddolwyr y gellir uniaethu â nhw.
- Trefnu i staff ymweld â grwpiau lleol i bobl dros 50 oed fel grwpiau Sefydliad y Merched neu Men's Sheds.
- Cyflogi arbenigwyr neu berson cyswllt allweddol fel IDVA a ISVA ar gyfer pobl hŷn.
- Cysondeb yn allweddol – un person cyswllt a enwir ar gyfer defnyddiwr eich gwasanaeth.
- Ehangu eich partneriaethau proffesiynol â phobl eraill, yn enwedig lle mae anghenion gofal a chymorth cyfannol.

> **Roeddwn i eisiau i rywun eirioli dros fy anghenion.**
> Goroeswr Benywaidd.

Hyrwyddo

- Rhoi hysbysebion a hysbysiadau mewn papurau newydd a chyl chlythyrau lleol Cymraeg a Saesneg.
- Hyrwyddo eich gwasanaethau ar orsafoedd radio lleol.
- Gofyn i fanciau a swyddfeydd post rannu manylion eich gwasanaethau a'u hyrwyddo fel man diogel.
- Ymgysylltu â sefydliadau crefyddol.
- Cysylltu â gweithwyr proffesiynol lleol eraill – er enghraifft banciau, swyddfeydd post, y diwydiant gwasanaeth, meddygon teulu, fferyllfeydd, clinigau clyw, sgrinio ar y fron symudol, nyrsys cymunedol, timau iechyd meddwl, gweithwyr ymdeithasol cymunedol a banciau bwyd.

> **Doeddwn i ddim yn gwybod pa wasanaethau oedd ar gael.**
> Goroeswr Benywaidd.

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â: **vawdasvblueprint@south-wales.police.uk**

© Hawlfraint y Goron 2025. Llywodraeth Cymru. WG50623

Atodiad 3: Strategaethau a Deddfwriaeth Berthnasol

Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 (y Ddeddf)	Mae'r Ddeddf yn darparu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer gwella'r gwaith o atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, gwella'r amddiffyniad a'r gefnogaeth i ddioddefwyr a goroeswyr, a chryfhau ymateb y sector cyhoeddus ledled Cymru. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswyddau ar gyrff cyhoeddus perthnasol i gydweithio, darparu hyfforddiant arbenigol, a gweithredu strategaethau cenedlaethol a lleol i sicrhau dull cydlynol, effeithiol sy'n canolbwyntio ar y goroeswr o fynd i'r afael â cham-drin a'i atal.
Strategaeth Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2022-26	Nod Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2022–2026 Llywodraeth Cymru yw sicrhau mai Cymru yw'r lle mwyaf diogel i fenywod drwy fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol drwy ddull cymdeithas gyfan. Yn unol â gofynion y Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, mae strategaeth newydd yn cael ei datblygu ar hyn o bryd, i'w chyhoeddi yn 2027.
Y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol i Atal Cam-drin Pobl Hŷn	Mae'r Camau Gweithredu Cenedlaethol i Atal Cam-drin Pobl Hŷn yn strategaeth benodol i fynd i'r afael â cham-drin unigolion hŷn. Ei nod yw cynnal urddas, annibyniaeth a hawliau drwy fynd i'r afael â gwendidau heb stereoteipio. Mae blaenoriaethau allweddol yn cynnwys gwella data a thystiolaeth, hyfforddi'r gweithlu, a diogelu safonau; sicrhau gwasanaethau amserol a chydgysylltiedig; codi ymwybyddiaeth drwy ymgyrchoedd cyfathrebu; a chryfhau atal mewn lleoliadau gofal a chymunedau. Mae'r cynllun yn hyrwyddo gwell rhannu gwybodaeth, mynediad digidol, a llais i bobl hŷn, ochr yn ochr â mynd i'r afael â materion fel cam-drin ariannol, esgeulustod, ynysu a cham-drin domestig.
Deddf Cam-drin Domestig 2021	Mae Deddf Cam-drin Domestig 2021 hefyd yn cynnwys diffiniad statudol o gam-drin domestig, yn ymdrin â cham-drin corfforol, emosiynol, rheolaethol neu orfodaethol, a cham-drin economaidd, ac mae'n cydnabod plant fel dioddefwyr. Mae'n creu rôl Comisiynydd Cam-drin Domestig, yn cyflwyno Hysbysiadau a Gorchmynion Diogelu rhag Cam-drin Domestig, ac yn gwahardd y sawl sy'n cam-drin rhag croesholi dioddefwyr mewn llysoedd teulu. Mae'r Ddeddf yn darparu mesurau arbennig ar gyfer dioddefwyr yn y llys, yn troseddoli tagu nad yw'n angheuol, yn ymestyn y trosedd "pornograffi dial" i fygythiadau, ac yn mynd i'r afael â cham-drin ar ôl gwahanu.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015	Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod fframwaith y bydd awdurdodau cyhoeddus penodol yng Nghymru yn ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu oddi mewn iddo heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain (yr egwyddor datblygu cynaliadwy), Rhaid i weithredoedd corff cyhoeddus wrth ymgymryd â datblygu cynaliadwy gynnwys y canlynol (a) gosod a chyhoeddi amcanion ("amcanion llesiant") sydd wedi'u cynllunio i sicrhau ei fod yn cyfrannu cymaint â phosibl at gyflawni pob un o'r nodau llesiant, a (b) cymryd pob cam rhesymol (wrth arfer ei swyddogaethau) i gyflawni'r amcanion hynny. Mae'r nodau llesiant a nodir yn y Ddeddf yn cynnwys: Cymru iachach, Cymru sy'n fwy cyfartal, a Chymru o gymunedau cydlynol. Mae Cymru iachach yn sail i farn gyfannol am y gofal a'r cymorth y gallai fod eu hangen ar rywun sy'n cael ei gam-drin. Mae Cymru sy'n fwy cyfartal yn atgyfnerthu'r angen i ddioddefwyr allu cael gafael ar ofal a chymorth beth bynnag fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau, er mwyn iddynt gyflawni eu potensial llawn fel goroeswr. Mae Cymru o gymunedau cydlynus yn annog rhwydweithiau cymunedol diogel a rhyng-gysylltiedig, gweithio cydgysylltiedig rhwng asiantaethau, yr angen i atal niwed yn ogystal â diogelu pobl rhag niwed.
Deddf Troseddau Difrifol 2015	Prif amcan y Ddeddf Troseddau Difrifol yw sicrhau bod gan asiantaethau gorfodi'r gyfraith bwerau cyfreithiol effeithiol i ddelio â'r bygythiad o droseddau difrifol a threfnedig. Mae'r Ddeddf Troseddau Difrifol yn diwygio'r ddeddfwriaeth bresennol sy'n delio ag enillion troseddu, seiberdroseddu, gorchmynion atal troseddau difrifol, gwaharddebau gangiau, creulondeb at blant, troseddau rhywiol yn erbyn plant, anffurfio organau cenhedlu benywod, a diogelwch carchardai, cyflawni rhai troseddau terfysgol dramor a rheoleiddio pwerau ymchwilio. Mae Adran 76 o'r Ddeddf Troseddau Difrifol yn cyflwyno'r drosedd o ymddygiad rheolaethol neu orfodaethol mewn perthynas agos neu deuluol: 1. Mae unigolyn (A) yn cyflawni trosedd os: a yw A yn ymddwyn mewn ffordd reolaethol neu orfodaethol tuag at berson arall (B) yn gyson neu'n barhaus, b ar adeg yr ymddygiad, bod gan A a B gysylltiadau personol, c yw'r ymddygiad yn cael effaith ddifrifol ar B, a d bod A yn gwybod neu dylai wybod y bydd yr ymddygiad yn cael effaith ddifrifol ar B.

	2. Mae gan A a B “gysylltiad personol” os: a yw A mewn perthynas bersonol agos â B, neu b mae A a B yn byw gyda’i gilydd ac: i. eu bod yn aelodau o’r un teulu, neu ii. eu bod wedi bod mewn perthynas bersonol agos â’i gilydd yn y gorffennol.
Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014	Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cyflwyno nifer o fesurau diogelu allweddol ar gyfer oedolion drwy gyflwyno dyletswydd i roi gwybod i’r Awdurdod Lleol am rywun yr amheuir ei fod yn oedolyn sydd mewn perygl o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso. Mae Deddf 2014 yn cyflwyno diffiniad o “oedolyn sydd mewn perygl” ac yn cyflwyno dyletswydd newydd ar yr Awdurdod Lleol i wneud ymholiadau, neu drefnu bod ymholiadau’n cael eu gwneud, i benderfynu a oes angen cymryd unrhyw gamau i ddiogelu pobl sydd mewn perygl. Ategir y ddyletswydd hon gan bŵer i wneud cais i’r llysoedd am Orchymyn Amddiffyn a Chynorthwyo Oedolion (“y Gorchymyn”). Bydd y Gorchymyn yn galluogi swyddog awdurdodedig sydd â’r sgiliau a’r profiad angenrheidiol i sicrhau mynediad i eiddo er mwyn siarad yn breifat â’r oedolyn yr amheuir ei fod mewn perygl i benderfynu a yw’n gwneud penderfyniadau’n rhydd, a yw mewn perygl a pha gamau, os o gwbl, y dylid eu cymryd. Cyn gwneud Gorchymyn, rhaid i ynad heddwch fod yn fodlon bod achos rhesymol dros amau bod yr oedolyn mewn perygl; ei bod yn angenrheidiol cael mynediad i asesu’r risg; ac na fydd arfer y pŵer mynediad yn golygu bod yr oedolyn mewn mwy o berygl o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso.
Deddf Galluedd Meddyliol 2005	Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 wedi’i chynllunio i ddiogelu unigolion nad oes ganddynt y galluedd meddyliol i wneud eu penderfyniadau eu hunain am ofal a thriniaeth. Mae’n berthnasol i unigolion 16 oed a hŷn ac mae’n cynnwys amrywiaeth o fesurau diogelu. Lle nad oes gan y dioddefwr alluedd meddyliol, gellir defnyddio Deddf Galluedd Meddyliol 2005 i gefnogi pobl hŷn sy’n dioddef cam-drin domestig. Mae Deddf Galluedd Meddyliol 2005 yn cynnwys pum egwyddor: 1. Dechrau gyda’r dybiaeth bod person yn gallu gwneud ei benderfyniadau ei hun, a bod ganddo’r gallu i wneud y penderfyniad penodol dan sylw 2. Gwneud yn siŵr eich bod yn gallu dangos eich bod wedi gwneud pob ymdrech i annog a chefnogi’r unigolyn i wneud y penderfyniad ei hun

	3. Nid yw gwneud penderfyniad sy'n annoeth, neu'n ecsentrig yn eich barn chi, o reidrwydd yn golygu nad oes gan yr unigolyn y galluedd i wneud y penderfyniad dan sylw 4. Rhaid i unrhyw beth a wneir dros neu ar ran person sydd heb alluedd gael ei wneud er lles gorau'r person hwnnw 5. Os ydych chi'n gweithredu ar ran unigolyn heb alluedd meddyliol, pwyswch a mesur yr ymyriad i sicrhau eich bod yn gweithredu mewn ffordd sy'n ymyrryd cyn lleied â phosibl â hawliau a rhyddid yr unigolyn Os nad oes gan berson hŷn sy'n dioddef cam-drin domestig y galluedd i wneud penderfyniadau am ei ddiogelwch, yna gellir gwneud "penderfyniadau lles pennaf" ar ei ran ynghylch sut i'w ddiogelu rhag y risg o gael ei gam-drin neu ei esgeuluso. Rhaid i benderfyniad er lles pennaf ystyried barn hysbys y person sydd mewn perygl a rhaid i unrhyw gamau a gymerir fod yn gymesur â lefel y risg. Dylai asesiad galluedd meddyliol gael ei gynnal gan berson sydd â'r arbenigedd perthnasol i wneud yr asesiad hwnnw, dylai fod yn benodol i benderfyniad ac yn benodol i amser. Efallai y bydd galluedd person hŷn yn amrywio oherwydd dementia neu salwch meddwl, er enghraifft. Mewn rhai achosion, gall gorfodaeth neu reolaeth fod yn effeithio ar y broses o wneud penderfyniadau, a dylid ystyried hyn yn ofalus fel rhan o'r asesiad. Mae gan yr Awdurdod Lleol y pŵer i alw ar Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol i helpu i wneud penderfyniadau am sefyllfaoedd lle mae person heb alluedd meddyliol mewn perygl o gael ei gam-drin. Mae gweithdrefnau Diogelu Oedolion Agored i Niwed yn debygol o gael eu defnyddio yn y rhan fwyaf o sefyllfaoedd lle nad oes gan 'Oedolyn sydd mewn Perygl' y galluedd meddyliol i wneud penderfyniadau am ei ddiogelwch. Dylai'r Eiriolwr Galluedd Meddyliol Annibynnol gynrychioli lles gorau'r person mewn cyfarfodydd perthnasol: • Rhaid rhagdybio bod gan berson alluedd oni sefydlir nad oes ganddo alluedd • Ni ddylid trin unigolyn fel rhywun sydd ddim yn gallu gwneud penderfyniad oni chymerwyd pob cam ymarferol i'w gynorthwyo i wneud hynny heb lwyddo • Ni ddylid trin unigolyn fel rhywun sydd ddim yn gallu gwneud penderfyniad dim ond am ei fod yn gwneud penderfyniad annoeth • Rhaid i weithred neu benderfyniad a wneir, dros neu ar ran person sydd heb alluedd, gael ei wneud er lles gorau'r person hwnnw

	Cyn i'r weithred gael ei gwneud, neu cyn i'r penderfyniad gael ei wneud, rhaid ystyried a oes modd cyflawni'r diben yr un mor effeithiol mewn ffordd sy'n cyfyngu llai ar hawliau'r unigolyn a'i ryddid i weithredu.
Deddf Hawliau Dynol 1998	Mae Deddf Hawliau Dynol 1998 yn darparu fframwaith pwysig ar gyfer diogelu pobl hŷn sy'n dioddef cam-drin domestig. Mae'n gosod dyletswyddau ar awdurdodau cyhoeddus i ddiogelu unigolion rhag niwed difrifol, camdriniaeth a thriniaeth ddiraddiol, gan barchu eu hurddas, eu hymreolaeth a'u bywyd teuluol ar yr un pryd. Mae dull sy'n seiliedig ar hawliau dynol yn helpu i sicrhau nad yw dioddefwyr hŷn yn cael eu hanwybyddu oherwydd eu hoedran, eu hanabledd, eu dibyniaeth ar ofalwyr, neu ragdybiaethau ynghylch perthnasoedd teuluol. Mae'n cefnogi pobl hŷn i fyw'n ddiogel, yn rhydd rhag camdriniaeth, ac i arfer dewis a rheolaeth dros y penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.
Deddf Cydraddoldeb 2010	Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn diogelu unigolion rhag gwahaniaethu ac yn hyrwyddo mynediad cyfartal at wasanaethau a chymorth. Mae'r Ddeddf yn nodi oedran fel nodwedd warchodedig, gan helpu i sicrhau bod dioddefwyr hŷn yn gallu cael gafael ar wasanaethau diogelu, tai, iechyd, cyfiawnder troseddol a chymorth arbenigol heb fod dan anfantais oherwydd eu hoedran neu nodweddion gwarchodedig eraill. **Gwahaniaethu ar Sail Oed** - Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn gwahardd gwahaniaethu heb gyfiawnhad ar sail oed. Mae hyn yn arbennig o berthnasol oherwydd gellir anwybyddu cam-drin domestig yn nes ymlaen mewn bywyd oherwydd rhagdybiaethau nad yw cam-drin yn digwydd ymysg pobl hŷn neu fod cam-drin mewn perthnasoedd hirdymor yn fater preifat. Dylai gweithwyr proffesiynol sicrhau: • Bod pobl hŷn yn cael yr un cyfle i gael mynediad at gefnogaeth ac amddiffyniad ag oedolion iau. • Bod ymatebion diogelu yn cydnabod y profiadau a'r risgiau penodol y mae dioddefwyr hŷn yn eu hwynebu. • Bod gwasanaethau'n cael eu cynllunio a'u darparu mewn ffyrdd sy'n hygyrch ac yn briodol i bobl hŷn. **Anabledd a Gwendidau Ychwanegol** - Gall llawer o ddioddefwyr hŷn hefyd fod ag anableddau, cyflyrau iechyd hirdymor, nam ar y synhwyrau neu anawsterau gwybyddol. Lle mae anabledd yn nodwedd warchodedig, mae gan sefydliadau ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol i sicrhau bod unigolion yn gallu cael gafael ar wasanaethau a chymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau. Gall enghreifftiau gynnwys: • Darparu gwybodaeth mewn fformatau hygyrch. • Trefnu cyfieithwyr neu gymorth cyfathrebu.

	• Cynnig ymweliadau cartref lle mae symudedd yn gyfyngedig. • Addasu prosesau diogelu i ddiwallu anghenion unigol. **Rhyw a Thrais yn erbyn Menywod** - mae cam-drin domestig yn effeithio'n anghymesur ar fenywod. Gall menywod hŷn wynebu mathau lluosog a chroestoriadol o wahaniaethu sy'n gysylltiedig ag oedran a rhyw, sy'n gallu creu rhwystrau ychwanegol rhag gofyn am help neu adael perthynas gamdriniol.

Atodiad 4: Rhestr termau

- **Cam-drin:** Cam-drin corfforol, rhywiol, seicolegol, emosiynol neu ariannol (Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015).
- **Oedolyn sydd mewn Perygl:** Oedolyn sy'n cael, neu sydd mewn perygl o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso, sydd ag anghenion gofal a chymorth sy'n golygu nad yw'n gallu amddiffyn ei hun (Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014).
- **Trais a Cham-drin gan Aelod o'r Teulu sy'n Oedolyn (AFVA/AFA):** cam-drin a gyflawnir gan aelod o'r teulu neu berthynas y tu allan i berthynas agos â phartner, e.e. priod, plentyn, nith neu nai, ŵyr neu wyres.
- **Gweithdrefnau Diogelu Cymru:** yn darparu un fframwaith cyson ar gyfer diogelu plant ac oedolion mewn perygl ledled Cymru. Mae'r gweithdrefnau'n amlinellu sut i nodi, adrodd ac ymateb i bryderon ynglŷn â cham-drin, esgeulustod neu niwed (gweler yr adnoddau uchod).
- **Ymddygiad Rheolaethol neu Orfodaethol:** Ymddygiad ailadroddus mewn perthynas agos neu deuluol sy'n rheolaethol neu orfodaethol ac sy'n cael effaith ddifrifol ar y dioddefwr (Deddf Troseddau Difrifol 2015).
- **Cam-drin Domestig:** Yn cynnwys cam-drin corfforol, rhywiol, seicolegol, emosiynol neu ariannol lle mae'r dioddefwr yn gysylltiedig neu wedi bod yn gysylltiedig â'r sawl sy'n cam-drin, fel y'i diffinnir yn Neddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.
- **Cam-drin Economaidd (Ariannol):** Rheoli, camddefnyddio neu ddwyn mynediad person at arian, adnoddau neu gyflogaeth.
- **Camdriniaeth Emosiynol (Seicolegol):** achosi niwed meddyliol neu emosiynol parhaus; gan gynnwys ymddygiad gorfodaethol a rheolaethol.
- **Priodas dan Orfod:** Priodas heb ganiatâd llawn a rhydd, yn aml yn cynnwys gorfodaeth neu fygythiadau.
- **Trais ar sail Rhywedd:** Trais, bygythiadau neu aflonyddu sy'n gysylltiedig â rhywedd neu gyfeiriadedd rhywiol, gan gynnwys anffurfio organau cenhedlu benywod a phriodas dan orfod.
- **Aflonyddu:** Ymddygiad sy'n gyfystyr ag aflonyddu, gan gynnwys ar lafar, lle byddai person rhesymol yn ei ystyried yn aflonyddu.
- **Trais ar Sail Anrhydedd:** Trais sy'n cael ei gyflawni i ddiogelu anrhydedd tybiedig y teulu neu'r gymuned.
- **Cynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig (IDVA):** Gweithwyr arbenigol sy'n cefnogi dioddefwyr cam-drin domestig drwy'r broses cyfiawnder troseddol.
- **Cynghorydd Annibynnol ar Drais Rhywiol (ISVA):** Gweithwyr arbenigol sy'n cefnogi dioddefwyr trais rhywiol drwy'r broses cyfiawnder troseddol.

- **Cynghorydd Stelcio Annibynnol (ISA):** Gweithwyr arbenigol sy'n cefnogi dioddefwyr stelcio ac aflonyddu.
- **Croestoriadedd:** Deall sut mae hunaniaethau sy'n gorgyffwrdd yn effeithio ar brofiadau o gam-drin.
- **Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg:** Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg ar gyfer achosion cam-drin domestig risg uchel.
- **Esgeulustod:** peidio â diwallu anghenion corfforol, emosiynol neu seicolegol sylfaenol.
- **Heb Hawl i Gyllid Cyhoeddus (NRPF):** Amodau mewnfudo sy'n cyfyngu ar fynediad at fudd-daliadau lles a chymorth tai.
- **Pobl Hŷn:** Mae'r Cenhedloedd Unedig wedi cytuno y gall 60 oed a hŷn gael eu dynodi'n henaint fel arfer. Mae Sefydliad Iechyd y Byd hefyd yn defnyddio'r diffiniad hwn. Roedd Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar gyfer yn diffinio pobl hŷn fel pobl 60 oed a hŷn at ddibenion y ffrwd waith anghenion pobl hŷn.
- **Y Sawl sy'n Cam-drin:** Unigolion sy'n defnyddio trais a cham-drin tuag at bartneriaid, cyn-bartneriaid neu aelodau o'r teulu.
- **Rhaglen i'r Rheini sy'n Cam-drin:** Ymyriad strwythuredig gyda'r nod o newid ymddygiad camdriniol a lleihau niwed.
- **Cam-drin Corfforol:** achosi niwed neu anaf corfforol yn fwriadol.
- **Cynllunio Diogelwch:** Strategaethau i wella diogelwch dioddefwr mewn sefyllfaoedd camdriniol.
- **Diogelu:** Y broses o ddiogelu iechyd, llesiant a hawliau dynol unigolyn, gan ei alluogi i fyw heb niwed
- **Camfanteisio Rhywiol:** Gweithredoedd sy'n ymwneud â throseddau rhywiol neu weithredoedd a fyddai'n gyfystyr â throseddau o'r fath o dan Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003.
- **Trais Rhywiol:** Unrhyw weithred neu weithgaredd rhywiol digroeso, gan gynnwys trais rhywiol, ymosodiad rhywiol, cam-drin plant yn rhywiol, aflonyddu rhywiol, masnachu pobl, a chamfanteisio rhywiol.
- **Stelcio:** patrwm o ymddygiad sefydlog, obsesiynol, digroeso ac ailadroddus sy'n achosi ofn, braw neu drallod i'r dioddefwr.
- **Ymarfer sy'n Ystyriol o Drawma:** Dull gweithredu sy'n cydnabod effaith trawma ac sy'n blaenoriaethu diogelwch a grymuso.
- **Trais yn Erbyn Menywod:** Trais ar sail rhywedd a brofir gan fenywod a merched, gan gynnwys cam-drin domestig a thrais rhywiol.